Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

# Canllawiau arfer da ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus anarbenigol yng Nghymru ar weithio gydag oedolion sy’n cyflawni trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

© Hawlfraint y Goron Medi 2019 WG38455 ISBN digidol 978-1-83933-125-1

## Rhagair gan Jane Hutt, y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip:

Mae'n dda gennyf gefnogi cyhoeddi'r ddogfen hon, sef 'Canllawiau arfer da ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus anarbenigol yng Nghymru ar weithio gydag oedolion sy’n cyflawni trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol'. Gan gydnabod effaith drychinebus Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) ar ddioddefwyr, teuluoedd a chymunedau, mae gweithredu Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Mae’r Strategaeth Genedlaethol VAWDASV yn amlinellu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau bod dioddefwyr a goroeswyr yng Nghymru yn cael eu blaenoriaethu. Rhaid cydnabod, ar yr un pryd, na lwyddwn i atal cam-drin, na gwella'r canlyniadau i ddioddefwyr a goroeswyr a'u plant a'u teuluoedd, heb gefnogi gwaith diogel ac effeithiol gyda chyflawnwyr VAWDASV.

Er mwyn cyflawni amcanion Strategaeth Genedlaethol VAWDASV ac amddiffyn dioddefwyr a goroeswyr, ym mis Rhagfyr 2018 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Safonau Gwasanaeth i Gyflawnwyr VAWDASV (2018) i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyson, diogel ac effeithiol i bawb sy'n cyflawni VAWDASV yng Nghymru. Bellach, drwy gyhoeddi'r Canllawiau hyn, rydym yn ymestyn ein cymorth i'n gweision cyhoeddus, drwy ddarparu canllawiau i'r rhai sy'n dod i gysylltiad â chyflawnwyr VAWDASV.

Gwyddom fod ein Gwasanaethau Cyhoeddus yn dod ar draws pob math o VAWDASV yn rheolaidd, drwy eu cysylltiad â'r cyhoedd, eu cydweithwyr, yn ogystal ag o fewn teuluoedd a grwpiau cyfeillion. Bwriedir i'r canllawiau hyn gael eu defnyddio gan bobl nad oes ganddynt wybodaeth arbenigol, gan eu helpu i adnabod VAWDASV a dysgu am ffyrdd ymarferol a diogel o weithio gyda phobl sy'n cam-drin a/neu sy'n dreisgar yn eu cydberthnasau personol.

Dylai Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod yn ymgysylltu â chyflawnwyr VAWDASV mewn ffyrdd diogel ac effeithiol. Drwy ddefnyddio'r gweithgareddau, y wybodaeth a'r cyngor ymarferol yn y canllawiau hyn, gall y Gwasanaethau Cyhoeddus gyfeirio cyflawnwyr, dioddefwyr a goroeswyr at y gwasanaethau arbenigol priodol a'n helpu i drechu VAWDASV. Yn y pen

draw, bydd y canllawiau hyn yn cyfrannu at ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau bod pawb sy'n cyflawni VAWDASV yng Nghymru yn gallu cael y cymorth sydd ei angen arnynt a bod dioddefwyr, goroeswyr, plant a theuluoedd yn cael eu hamddiffyn, gan wella bywydau pobl yng Nghymru.

Yn gywir

Jane

## Cynnwys


**1. Cyflwyniad** ... 1

**2. Yr iaith a ddefnyddir yn y canllawiau** ... 2

**3. Nodau** ... 4

**4. Crynodeb Gweithredol** ... 4

**5. Beth yw cam-drin domestig?** ... 6

**6. Pwy sy'n cyflawni cam-drin domestig?** ... 9

**7. Pam bod angen gweithio gyda chyflawnwyr?** ... 12

**8. Ystyriaethau ymarfer wrth weithio gyda chyflawnwyr cam-drin domestig** ... 15

**9. Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru fel asiantaethau atgyfeirio** ... 27

9.a Rhaglenni cymunedol i gyflawnwyr ... 27

9.b Opsiynau Cyfiawnder Troseddol ... 31

9.c Rhaglenni Cyflawnwyr Statudol ... 35

9.d Gwasanaethau y mae'n bosib nad ydynt yn opsiynau atgyfeirio priodol ... 35

**10. Rôl y Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru mewn partneriaethau amlasiantaethol sy'n ymwneud â cham-drin domestig** ... 39

**11. Rôl Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru mewn perthynas â nodi risgiau, eu hasesu a'u lliniaru** ... 45

11.a Adnodd Adnabod Cyflawnwyr â Blaenoriaeth ... 50

**12. Ystyriaethau mewnol ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus** ... 53

12.a Diwylliant y gweithle ... 53

12.b Addysg, hyfforddiant a rhoi gwybodaeth ... 54

12.c Polisi ... 55

**Atodiadau** ... 59

Atodiad 1: Pwyntiau Ymarfer ... 59

Atodiad 2: Briffiad cryno ... 64

Atodiad 3: Siart llif ‘Beth i'w wneud os byddwch yn poeni am risg’ ... 65

Atodiad 4: Diffiniadau ... 67

## 1. Cyflwyniad

1.1 Diben y canllawiau hyn yw cynorthwyo gwasanaethau *nad* ydynt yn arbenigo ym maes mynd i'r afael â VAWDASV, a **phob** Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru i reoli staff sydd wedi cyflawni'r fath gamdriniaeth.

1.2 Mae'r canllawiau hyn yn bodloni un o ofynion Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Mae hefyd yn cyfrannu at amcanion amlasiantaethol ffrwd waith VAWDASV yn y 'Fframwaith i gefnogi newid positif ar gyfer y rheini sydd mewn risg o droseddu yng Nghymru 2018-2023'. Cafodd y canllawiau hyn eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru a'u drafftio gan Wasanaethau Seicolegol Fforensig Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yng Nghymru. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y canllawiau at ddiben cael sylwadau arnynt a chynhaliodd arolwg er mwyn cael adborth. Cafodd yr adborth ei ystyried a diweddarwyd y canllawiau.

1.3 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi'n glir fod llesiant yn cynnwys peidio â chael eich cam-drin a chael rheolaeth dros eich bywyd beunyddiol ac mae'n defnyddio p'un a yw pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi eu hunain ai peidio fel dangosydd. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gofyn i bartneriaid perthnasol gydweithio er mwyn cefnogi a diogelu oedolion a phlant sydd ag anghenion cymorth a gofal, a gofalwyr.

1.4 Cydnabyddwn y gall gweision cyhoeddus ddod i gysylltiad â phob math o VAWDASV drwy eu cysylltiad â'r cyhoedd, eu grŵp o gleientiaid, eu cydweithwyr neu yn eu cartrefi eu hunain. Er bod angen i wasanaethau arbenigol wneud gwaith ymyrryd ffurfiol gyda chyflawnwyr VAWDASV, gall y Gwasanaethau Cyhoeddus gyfrannu at agenda VAWDASV mewn sawl ffordd a gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl yng Nghymru.

1.5 Gall cynyddu ymwybyddiaeth o VAWDASV a lleihau'r stigma sy'n gysylltiedig â datgelu achosion, i ddioddefwyr a chyflawnwyr fel ei gilydd, ganiatáu i'r cyflawnwyr gael yr help sydd ei angen arnynt ac amddiffyn dioddefwyr. Drwy annog y Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru i ymgysylltu â chyflawnwyr yn fwy effeithiol, fel cleientiaid a chydweithwyr, y gobaith yw y bydd y canllawiau hyn yn cefnogi agenda Llywodraeth Cymru o ran mynd i'r afael â VAWDASV.

## 2. Yr iaith a ddefnyddir yn y canllawiau

### Cam-drin domestig

2.1 Mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf") yn cydnabod amrywiaeth o fathau o drais a chamdriniaeth ar sail rhywedd y mae menywod yn eu profi yn anghymesur, yn ôl y dystiolaeth.

2.2 Er bod gan y Ddeddf gwmpas eang, mae'r canllawiau arfer da hyn yn ymwneud â cham-drin domestig yn bennaf. Mae'r canllawiau hyn yn ystyried agenda VAWDASV yn ehangach ac mae llawer o'r arferion a'r pwyntiau strategol yn y ddogfen hon yn berthnasol i bob math o VAWDASV.

2.3 Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar gam-drin domestig yn fanylach am nifer o resymau:

- Mae gwaith ymyrryd gyda'r rhai sy'n cyflawni rhai mathau o gam-drin rhywiol a mathau eraill o drais yn erbyn menywod, fel anffurfio organau cenhedlu benywod, trais ar sail anrhydedd a phriodas dan orfod (neu ddioddefwyr eraill), yn gofyn am fathau gwahanol ac, yn y rhan fwyaf o achosion, fathau arbenigol iawn o ymyriadau.
- Mae cam-drin domestig yn broblem fawr ledled Cymru ac mae'n faes sydd angen gweld newid diwylliannol ymhlith y boblogaeth am ei fod yn cael ei oddef yn fwy na mathau eraill o VAWDASV. Y gobaith yw y bydd mynd i'r afael â hyn o fewn Gwasanaethau

Cyhoeddus, a hynny ymhlith staff a grwpiau o gleientiaid, yn helpu i ddechrau cyflwyno'r newid diwylliannol hwn.

2.4 Mae unrhyw gyfeiriad yn y canllawiau hyn at "drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol" yn cynnwys pob math o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol fel y'u diffinnir yn adran 24 o'r Ddeddf. Mae'r canllawiau'n cydnabod effaith anghymesur cam-drin domestig ar fenywod ond mae'n cynnwys pob dioddefwr posibl.

**Cyfeiriadau at rywedd**

2.5 Er bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod cam-drin domestig yn cael effaith anghymesur ar fenywod a merched, mae hefyd yn cydnabod y gall achosion o gam-drin ddigwydd o fewn y gymuned LGBTQ+ a chan gyflawnwyr benywaidd yn erbyn dioddefwyr sy'n ddynion. Er mwyn sicrhau bod y Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymwybodol o hyn ac yn gallu cefnogi pawb sy'n cyflawni'r fath drais, ni waeth beth fo'u rhywedd, bwriedir i'r canllawiau hyn fod yn niwtral o ran y rhywiau.

2.6 Ar hyn o bryd mae bron pob achos o ymyrryd sy'n targedu cyflawnwyr cam-drin domestig ar gyfer dynion sydd â phartneriaid sy'n fenywod. Mae Llywodraeth Cymru yn deall mai megis dechrau datblygu ymyriadau sy'n targedu menywod sy'n cyflawni cam-drin domestig a wneir yn y DU. Pan fydd mwy o wybodaeth ar gael, caiff ei hadlewyrchu yn y canllawiau hyn.

**Cyfeiriadau at ddioddefwyr**

2.7 Mae'r term goroeswr fel arfer yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio at unigolyn nad yw mewn perthynas gamdriniol mwyach ac mae'r canllawiau hyn yn gyffredinol yn cyfeirio at sefyllfaoedd lle mae camdriniaeth yn mynd rhagddi. O ganlyniad, drwy'r ddogfen hon, cyfeirir at bobl sydd wedi profi cam-drin domestig fel dioddefwyr yn hytrach na goroeswyr.

## 3. Nodau

3.1 Nod y ddogfen hon yw rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i'r Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru i'w galluogi i gefnogi gwaith agenda VAWDASV gyda chyflawnwyr.

3.2 Mae'r canllawiau hyn yn cydnabod bod gwaith ymyrryd yn gynnar ac atal yn allweddol wrth drechu pob math o VAWDASV. Caiff gweision cyhoeddus ym mhob sector y cyfle i wneud gwahaniaeth pan fyddant yn dod ar draws ymddygiad amhriodol neu arwyddion rhybudd ymhlith y cyhoedd, eu grŵp o gleientiaid, eu cydweithwyr neu nhw eu hunain. Nod y canllawiau hyn yw helpu gweision cyhoeddus i wneud y gwahaniaeth hwn drwy godi ymwybyddiaeth o'r canlynol:

- Beth yw cam-drin domestig a phwy sy'n ei gyflawni
- Pam bod angen gweithio gyda chyflawnwyr
- Problemau posibl wrth weithio gyda chyflawnwyr
- Opsiynau atgyfeirio ledled Cymru
- Pwysigrwydd rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau
- Pwysigrwydd ystyried cam-drin domestig o fewn y grŵp o staff
- Pwysigrwydd meithrin diwylliant, mewn gweithleoedd a ledled Cymru, lle caiff VAWDASV ei herio a lle cefnogir opsiynau amgen iach

## 4. Crynodeb Gweithredol

4.1 Cymerwyd camau breision dros y degawdau diwethaf i wella'r ffordd rydym yn gweithio gyda'r sawl y mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn effeithio arnynt. Mae gwaith amlasiantaethol yn gyffredin, mae trydydd sector arbenigol cryf a

phroffesiynol yn bodoli ac mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn canolbwyntio'n strategol ar y materion a wnaiff ymgorffori arfer da. Yn 2016 lluniodd Llywodraeth Cymru strategaeth genedlaethol ar VAWDASV[1]. Mae amcan tri o'r strategaeth yn gofyn i Weinidogion Cymru roi "mwy o ffocws ar ddwyn cyflawnwyr i gyfrif, a darparu ymyriadau a chymorth iddynt newid eu hymddygiad gyda phwyslais ar ddiogelwch y dioddefwr". Mae'r canllawiau hyn yn cyfrannu at yr amcan hwn.

4.2 Mae cryn dipyn o'r cynnydd hwn wedi canolbwyntio ar newid arferion a chreu gwasanaethau i sicrhau diogelwch a llesiant dioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, er enghraifft safoni ansawdd llochesau a chreu gweithwyr dioddefwyr arbenigol. Hefyd, sefydlwyd Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol a chyflwynir hyfforddiant Gofyn a Gweithredu er mwyn helpu gweithwyr proffesiynol i adnabod arwyddion VAWDASV a chyfeirio unigolion at gymorth. Mae diogelwch dioddefwyr trais a chamdriniaeth o'r fath yn ganolog i ymateb cymunedol llwyddiannus sydd wedi'i gydgysylltu a rhaid i bob ymyriad sicrhau bod dioddefwyr, eu barn a'u diogelwch wrth wraidd y broses.

4.3 Dim ond un elfen o'r gwaith yw rhoi ffocws ar ddioddefwyr a gwasanaethau dioddefwyr. Y sawl sy'n cam-drin, ac nid y dioddefwr, sy'n beryglus, ac felly nid yw canolbwyntio ar ddioddefwyr yn unig yn mynd i'r afael â'r broblem yn effeithiol. Gall mesurau ataliol ac ymyrryd yn gynnar osgoi achosi niwed, gan atal rhywun rhag dioddef dro ar ôl tro neu greu dioddefwyr newydd.

4.4 Dylai'r canllawiau gael eu darllen a'u defnyddio gan y rheini sydd â chyfrifoldeb strategol a gweithredol am faterion polisi a gwasanaethau sy'n mynd i'r afael â VAWDASV yn eu sefydliadau, a'r rheini sy'n gyfrifol am ddarparu a rheoli gwasanaethau rheng flaen a all ddod i gysylltiad â chyflawnwyr fel defnyddwyr gwasanaeth neu gyflogeion (gweler Adran 12).

[1] Llywodraeth Cymru (2016) *Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol – 2016-2021.* Hawlfraint y Goron.

4.5 Mae'r canllawiau'n cyfeirio at ffyrdd defnyddiol o weithio ac arfer da i'r rheini sy'n gweithio gydag oedolion sy'n defnyddio trais a chamdriniaeth tuag at bartneriaid, cynbartneriaid neu aelodau o'r teulu. Pwysleisia bwysigrwydd arweinyddiaeth, a atgyfnerthir drwy reolaeth gref ac sy'n arwain at ymarfer effeithiol. Mae'n bwysig nodi, er bod y canllawiau hyn yn ystyried cam-drin domestig a gyflawnir gan oedolion yn gyffredinol, mae'r mwyafrif o'r sail dystiolaeth yn y maes hwn yn canolbwyntio ar gamdriniaeth rhwng pobl sydd mewn perthynas agos.

4.6 Rhydd y ddogfen hon ganllawiau ymarferol, sydd wedi'u teilwra i asiantaethau o fewn y sector cyhoeddus yng Nghymru ar yr hyn y gellir ei wneud ym mhob sefydliad i ymdrin yn fwy effeithiol â'r rhai sy'n defnyddio ymddygiad camdriniol tuag at bartneriaid, cynbartneriaid ac aelodau o'r teulu. Nodir y rhain ar ffurf 'pwyntiau ymarfer' a 'phwyntiau strategol'.

4.7 Mae'r canllawiau hyn yn hirfaith am fod y materion dan sylw yn gymhleth. Er hwylustod, crynhoir y pwyntiau ymarfer a strategol a argymhellir yn Atodiad 1. Gall gael ei ddefnyddio fel dadansoddiad bylchau neu i atgoffa asiantaethau wrth iddynt gynllunio eu dull o weithio gyda chyflawnwyr.

4.8 Darperir briff cryno yn Atodiad 2 hefyd, a all gael ei ddefnyddio fel dogfen ragarweiniol i staff. Yn Atodiad 3 darperir siart llif sy'n crynhoi'r hyn i'w wneud os bydd gennych unrhyw bryderon am y risg mae cyflawnwr yn ei pheri. Dylai'r canllawiau fod ar gael i staff yn eu cyfanrwydd, a dylai pob aelod o staff gael eu hannog i ddarllen y ddogfen yn llawn.

## 5. Beth yw cam-drin domestig?

5.1 Mae'r Ddeddf yn diffinio cam-drin domestig fel camdriniaeth rhwng pobl sy'n gysylltiedig â'i gilydd. Felly, gall cam-drin domestig ddigwydd

rhwng pobl mewn perthynas agos neu gynbartneriaid, rhieni a phlant (y naill ffordd neu'r llall), brodyr a chwiorydd neu aelodau eraill o'r teulu. Mae'r Ddeddf yn diffinio camdriniaeth fel cam-drin corfforol, rhywiol, emosiynol neu ariannol.

5.2 Gall fod gan achosion o gam-drin domestig brif ddioddefwyr a dioddefwyr eilaidd, yn ogystal â phrif gyflawnwyr a chyflawnwyr dirprwyol. Prif ddioddefwyr a chyflawnwyr yw'r ddau berson sydd â'r cysylltiad, er enghraifft, partneriaid, rhiant a phlentyn neu frodyr a chwiorydd.

5.3 Dioddefwyr eilaidd yw'r bobl sy'n profi'r gamdriniaeth o ganlyniad i'r berthynas gam-driniol. Gall fod yn rhywun mae'r cyflawnwr yn meddwl bod ganddo ddiddordeb yn y dioddefwr, neu eu bod mewn perthynas ar y slei; aelod o'r teulu neu ffrind mae'r cyflawnwr yn meddwl eu bod yn amharu yn y berthynas; rhywun sy'n bresennol sy'n ymyrryd mewn dadl; cydweithiwr sy'n atal y cyflawnwr rhag cyrraedd y dioddefwr; plant a ddefnyddir i gyrraedd y dioddefwr; neu blant sy'n cael eu cam-drin er mwyn cosbi'r partner. Gall plant ddioddef ymhellach drwy fod yn dyst i'r gamdriniaeth.

5.4 Mae cyflawnwyr dirprwyol yn bobl eraill mae'r cyflawnwr wedi'u defnyddio i barhau i gam-drin; er enghraifft, ffrindiau'r cyflawnwr sy'n bygwth y dioddefwr neu ei deulu.

5.5 Gall cam-drin domestig ddigwydd mewn sawl ffordd, rhai'n gynnil a rhai'n amlwg. Cam-drin **corfforol** a **rhywiol** yw'r mathau o gam-drin a gydnabyddir hawsaf. Gall mathau mwy cynnil o gam-drin fod yr un mor niweidiol i ddioddefwr a chynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):

- cam-drin **emosiynol** fel galw enwau ar y dioddefwr, gwneud i ddioddefwyr feddwl mai nhw sydd ar fai, bygwth lladd eu hunain
- **brawychu a bygwth**

- cam-drin **ariannol** fel atal y dioddefwr rhag gweithio, neu gyfyngu ar fynediad i arian
- **rheolaeth drwy orfodaeth** (patrwm parhaus o gam-drin a ddefnyddir i niweidio, cosbi neu ddychryn y dioddefwr)
- **stelcio ac aflonyddu**
- **ynysu** dioddefwyr o deulu a ffrindiau; rheoli bywyd beunyddiol dioddefwyr (er enghraifft cadw llygad ar ble maent, edrych ar dderbynebau, mynnu eu bod gartref i ateb ffôn y tŷ)
- **defnyddio plant** (er enghraifft, drwy ymweliadau cyswllt; cael y plant i gario clecs am y dioddefwr; dylanwadu barn y plant am y dioddefwr; cam-drin y plant yn uniongyrchol; bygwth mynd â'r plant i ffwrdd)

5.6 Gall cam-drin domestig gael ei gefnogi gan ffrindiau a theulu naill ai'n echblyg (er enghraifft drwy feio'r dioddefwr am y gamdriniaeth, cymryd rhan yn yr achosion o gam-drin neu annog ymddygiad gamdriniol) neu'n ymhlyg (er enghraifft, drwy anwybyddu'r broblem, annog cadw problemau teuluol o fewn y teulu, neu guddio bai'r cyflawnwr).

5.7 Ar raddfa ddiwylliannol, ehangach, gall cam-drin domestig gael ei gefnogi gan gred na ddylid trafod problemau teuluol y tu allan i'r teulu, bod rheolau llym ar gyfer bod mewn perthynas na ddylid eu torri, normaleiddio ymddygiad camdriniol (er enghraifft, edrych ar ffonau, ymateb yn ddig pan fo partner yn siarad â dyn arall) ac agweddau gwreig-gasaol cyffredinol, h.y. y rhai lle ystyrir bod y dyn uwchlaw'r fenyw, lle cefnogir glynu'n gaeth wrth rolau rhywedd traddodiadol neu lle credir y dylai dynion ddominyddu menywod.

**Mathau eraill o VAWDASV**

5.8 Ymhlith y mathau eraill o drais ar sail rhywedd a ddiffinnir gan y Ddeddf mae troseddau rhywiol yn erbyn plant; anffurfio organau cenhedlu benywod; trais, bygythiadau neu aflonyddu oherwydd gwerthoedd, credoau neu arferion sy'n ymwneud â rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol (gan gynnwys yr hyn a elwir yn drais 'ar sail anrhydedd'); a

phriodas dan orfod. Mae'r rhain yn isadrannau penodol o drais yn erbyn menywod y mae angen eu hystyried mewn ffordd arbenigol ac sydd y tu hwnt i gwmpas y canllawiau hyn.

5.9 Mae gwefan Byw Heb Ofn Llywodraeth Cymru yn adnodd defnyddiol i'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol ac mae'n cynnwys rhagor o wybodaeth am bob math o VAWDASV. Mae'r wefan ar gael yn: https://llyw.cymru/byw-heb-ofn.

## 6. Pwy sy'n cyflawni cam-drin domestig?

6.1 Dywed gwaith ymchwil wrthym fod yr hyn sy'n ysgogi ac yn achosi cam-drin domestig yn amrywio. Gall ddigwydd mewn unrhyw deulu neu berthynas ac nid yw'n gyfyngedig i unrhyw statws economaidd-gymdeithasol nac ethnigrwydd penodol. Mae cyffredinrwydd cam-drin domestig yn golygu ei bod yn debygol y bydd pobl sy'n darllen y canllawiau hyn wedi cyflawni hynny eu hunain.

6.2 Nodwyd bod cysylltiadau rhwng Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, fel tyfu i fyny ar aelwyd lle cafwyd cam-drin domestig, a chyflawni hynny fel oedolyn[2]. Gall hyn ddigwydd oherwydd y straen cynyddol a brofir ar gamau datblygiadol gan effeithio ar ddatblygiad yr ymennydd o ran rheolaeth emosiynol a phrosesu problemau, meithrin agweddau sydd o blaid cam-drin mewn perthnasau, diffyg ymwybyddiaeth o gydberthnasau iach, lefelau uwch o gamddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl, ymlyniadau nad ydynt yn gadarn ac anawsterau i ymdopi â'u profiad o drawma[3]. Yn ddiweddar cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Bangor astudiaeth

[2] e.e. Roberts AL, McLaughlin KA, Conron KJ, Koenen KC. (2011) Adulthood stressors, history of childhood adversity, and risk of perpetration of intimate partner violence. *American journal of preventive medicine. 40*(2):128–38.
[3] Bancroft, L., Silverman, J.G. a Ritchie, D. (2012). The batterer as a parent: Addressing the impact of domestic violence on family dynamics. Sage Publications Inc. http://dx.doi.org/10.4135/9781452240480

ar gyfraddau Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ymysg carcharorion yng Nghymru[4].

6.3 Mae'n bwysig nodi nad yw'r mwyafrif o bobl sydd wedi cael Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn datblygu i gyflawni cam-drin domestig, ac nid pob cyflawnwr wedi eu cael ychwaith, er bod y nifer sydd wedi eu profi yn gymharol uchel. Er bod rhai Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn fwy cyffredin mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is, gallant ddigwydd ym mhob grŵp ac nid yw cam-drin domestig yn gwahaniaethu.

6.4 Gall cam-drin domestig hefyd gael ei gysylltu â chamddefnyddio pŵer a rheolaeth[5] gan un person dros berson arall, canlyniad anhwylder personoliaeth[6], cenfigen rhywiol[7], anawsterau i gyfathrebu'n effeithiol[8] ac ymateb i drawma (e.e. cyn-aelodau o'r lluoedd arfog[9]).

6.5 Nid yw'r gwahaniaeth rhwng cyflawnwyr a dioddefwyr cam-drin domestig bob amser yn amlwg, er enghraifft gall dioddefwr ddefnyddio trais i amddiffyn ei hun, neu gall y naill bartner a'r llall ymddwyn mewn ffyrdd camdriniol (cam-drin ei gilydd)[10].

6.6 Nid oes unrhyw uchafswm oedran yn gymwys i ddiffiniad y Ddeddf o gamdriniaeth ac felly mae'n ymwneud ag oedolion a phlant. Lle bydd plant yn dechrau ymddwyn mewn ffordd gamdriniol, mae'n bwysig cofio mai plant ydynt ac nad ydym yn eu labelu fel cyflawnwyr neu

---

[4] Ford, K., Barton, E.R., Newbury, A., Hughes, K., Bezeczky, Z., Roderick, J. a Bellis, M.A. (2019). *Deall cyfraddau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs) ymysg poblogaeth o droseddwyr gwrywaidd yng Nghymru: Arolwg ACEs Carcharorion* Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Bangor.
[5] e.e. Dutton, D.G. (1995). The Domestic Assault of Women. Vancouver, BC: UBC Press.
[6] e.e. Sijtsema, J. J., Baan, L., a Bogaerts, S. (2014). Associations between dysfunctional personality traits and intimate partner violence in perpetrators and victims. *Journal of Interpersonal Violence, 29*(13), 2418-2438. 10.1177/0886260513520228
[7] e.e. Gilchrist, E.A., Johnson, R., Takriti, R., Weston, S., Kebbell, M., a Beech, A.R. (2003). Domestic violence offenders: Characteristics and offending related needs. *Home Office Research Findings 217.* Llundain: Y Swyddfa Gartref.
[8] e.e. Feldman, C.M., a Ridley, C.A. (2000). Role of conflict-based communication responses and outcomes in male domestic violence towards female partners. *Journal of Social and Personal Relationships, 17,* 552 – 563.
[9] e.e. Finley, E.P., Baker, M., Pugh, M.J. a Peterson, A. (2010) Patterns and Perceptions of Intimate Partner Violence Committed by Returning Veterans with Post-Traumatic Stress Disorder. *Journal of Family Violence, 25*, 737- 743. DOI 10.1007/s10896-010-9331-7
[10] Johnson, M.P. (2008). *A typology of domestic violence: Intimate terrorism, violent resistance and situational couple violence.* Northeastern University Press, Lebanon.

gamdrinwyr. Mae Llywodraeth Cymru yn argymell trin plant sy'n dechrau ymddwyn mewn ffordd gamdriniol yn gyfannol a gall eu labelu'n gyflawnwyr neu'n gamdrinwyr atal gweithwyr proffesiynol rhag ystyried y materion ehangach dan sylw.

**Y glasoed yn cam-drin rhieni**

6.7 Mae'r 'glasoed yn cam-drin rhieni' yn disgrifio trais a chamdriniaeth gan rywun glasoed tuag at riant. Mae'r gamdriniaeth yn aml yn cynnwys patrwm o weithredoedd ymosodol, camdriniol a threisgar dros gyfnod hir o amser. Mae'r fath ymddygiad yn creu amgylchedd lle bydd rhieni'n ofni eu plentyn a byddant yn aml yn newid eu hymddygiad eu hunain er mwyn osgoi gwrthdaro, neu reoli neu leihau trais.[11] Cyfrannodd Llywodraeth Cymru at gyhoeddiad 'Information Guide on Adolescent to Parent Violence and Abuse' 2015 y Swyddfa Gartref y gellir cyfeirio ato i gael arweiniad.

**Pobl ifanc sydd mewn perthnasoedd camdriniol**

6.8 Bydd nifer sylweddol o bobl ifanc yn profi rhyw fath o drais yn eu perthnasoedd eu hunain. Nododd Arolwg Troseddu Prydain Mawrth 2015 fod un mewn chwe menyw ifanc rhwng 16 a 19 oed wedi rhoi gwybod am ryw fath o drais gan bartner yn y 12 mis blaenorol. Caiff y menywod ifanc hynny sydd o dan 18 oed eu diffinio'n blant yn ôl y gyfraith ac maent yn gymwys i gael y cymorth, y gofal a'r diogelwch a ddarperir gan awdurdodau lleol o dan Ddeddf Plant 1989. Gall pobl ifanc sy'n ymddwyn mewn ffordd gamdriniol hefyd gael eu diffinio'n blant yn ôl y gyfraith. Fodd bynnag, mae'r perthnasoedd dan sylw yn debygol o fod yn berthnasoedd "oedolion" yn ôl eu natur – perthynas agos, yn cyd-fyw ac o bosibl â phlant eu hunain. At hynny, awgryma gwaith ymchwil y bydd y gamdriniaeth yn ddifrifol.[12]

6.9 Mae'r opsiynau a drafodir yn y canllawiau hyn yn ymwneud â chyflawnwyr sydd dros 18 oed. Nid ystyriwn fod plant (h.y. y rhai o dan

[11] Information guide: adolescent to parent violence and abuse (APVA) Y Swyddfa Gartref (2015)
[12] Safe Younger Lives: Young People and Domestic Abuse http://www.safelives.org.uk/knowledge-hub/spotlights/spotlight-3-young-people-and-domestic-abuse

18 oed) yn gyflawnwyr a dylid cael cyngor gan wasanaethau ieuenctid priodol er mwyn sicrhau bod y mesurau diogelu angenrheidiol ar waith.

6.10 Gall fod yn ddefnyddiol i ymarferwyr gyfeirio at y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014) am arweiniad pellach ar sut i gefnogi plant, pobl ifanc ac oedolion sydd angen gofal a chymorth.

## 7. Pam bod angen gweithio gyda chyflawnwyr?

7.1 Cydnabyddir fwyfwy, er mwyn trechu cam-drin domestig, fod angen cynnwys dioddefwyr a chyflawnwyr a chynnig gwasanaethau effeithiol i fynd i'r afael â'r symptomau, yr effeithiau a gwraidd y broblem.

7.2 Er bod y maes hwn o ymarfer yn dal i ddatblygu, ceir cyfres sefydledig o wasanaethau sydd wedi'u hanelu at ddioddefwyr cam-drin domestig ac mae sail dystiolaeth gadarn yn ymwneud ag effeithiolrwydd y gwasanaethau hyn wrthi'n cael ei datblygu. Caiff asiantaethau a chyfleusterau o'r fath eu defnyddio'n dda gan y Gwasanaethau Cyhoeddus ac maent ar gael ar draws y wlad.

7.3 Nid yw gwaith sy'n ymwneud ag ymgysylltu â chyflawnwyr cam-drin domestig wedi'i ddatblygu cystal. Trafodir y modelau gwaith mwy sefydledig yn ddiweddarach yn y canllawiau hyn ond, yn gyffredinol, ychydig iawn o ddarpariaeth sydd ledled Cymru ac mae llawer o brosiectau ar gamau cynnar iawn o ran tystiolaeth ac argaeledd. Yn ddiweddar mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi asesiad cyflym o'r dystiolaeth o'r hyn y dengys ymchwil sy'n gweithio gyda chyflawnwyr cam-drin domestig[13]. Mewn ymdrech i sicrhau bod ymarfer yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu safonau gwasanaeth gofynnol i gyflawnwyr trais (VAWDASV)[14].

[13] https://llyw.cymru/asesiad-cyflym-or-dystiolaeth-beth-syn-gweithio-gyda-chyflawnwyr-cam-drin-domestig
[14] https://gweddill.gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/181206-vawda-perpetrator-service-standards-cy.pdf

7.4 Tra bod datblygiad ymyriadau arbenigol sy'n targedu cyflawnwyr cam-drin domestig o ddiddordeb i Lywodraeth Cymru, mae hefyd yn amlwg bod gan y Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru rôl hanfodol i'w chwarae o ran cynnwys cyflawnwyr cam-drin domestig, asesiadau risg a gwaith lliniaru ac atgyfeirio.

7.5 Mae rôl y Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru yn hanfodol oherwydd:

- **mae cam-drin domestig yn fater i chi:** Mae gan bob un ohonom rôl i'w chwarae wrth greu diwylliant ledled Cymru nad yw'n goddef cam-drin domestig. Mae addysgu cyflawnwyr am ganlyniadau eu gweithredoedd, eu dwyn i gyfrif a'u helpu i gael help i newid eu hymddygiad yn strategaethau hanfodol bwysig er mwyn atal mwy o gam-drin

- **rydych eisoes yn gweithio gyda chyflawnwyr cam-drin domestig:** nid yw'r rhan fwyaf o gyflawnwyr cam-drin domestig ynghlwm wrth y System Cyfiawnder Troseddol. Hyd yn oed lle maent wedi'u cael yn euog ac wedi'u carcharu, ar ryw bwynt maent yn debygol o ddychwelyd i fyw yn eu cymuned. Yn aml byddant yn byw gyda'u teulu. Wrth wneud hynny byddant yn defnyddio Gwasanaethau Cyhoeddus ac, mewn llawer o achosion, bydd eu hymddygiad camdriniol yn dylanwadu ar y cyswllt hwn. Mae cyffredinrwydd cam-drin domestig ledled Cymru yn golygu y bydd staff Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnwys dioddefwyr a chyflawnwyr.

- **mae cam-drin domestig yn fater amddiffyn plant:** bydd y rhan fwyaf o gyflawnwyr mewn cysylltiad parhaus â'u plant, hyd yn oed os bydd y berthynas rhwng y rhieni wedi chwalu. Mae cysylltiad rhwng cam-drin domestig a cham-drin plant uniongyrchol ac mae'n peri risg fawr wrth ystyried trefniadau cyswllt.[15] Mae'r cysylltiad rhwng Profiadau Andwyol yn ystod Plentyndod a chyflawni cam-

[15] CAADA (2014) In plain sight: Effective help for children exposed to domestic abuse.

drin domestig yn y dyfodol yn glir, fel sy'n wir am y cysylltiad rhwng y profiadau hyn ac anghenion iechyd a chymdeithasol parhaus[16]. Dylai pob Gwasanaeth Cyhoeddus ganolbwyntio ar leihau nifer y Profiadau Andwyol yn ystod Plentyndod i blant heddiw er mwyn lleihau anawsterau iechyd a chymdeithasol yn y dyfodol, yn ogystal â thorri'r cylch cam-drin. Mae hyn yn cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a strategaeth genedlaethol Ffyniant i Bawb[17] Llywodraeth Cymru. Gall llysoedd teulu gymryd camau i ddiogelu plant a dioddefwyr, a sicrhau bod eu tystiolaeth yn cael ei chlywed. Gall y penderfyniadau diogelu a wneir gan y llysoedd teulu gael eu hategu gan wybodaeth a ddarperir gan y Gwasanaethau Cyhoeddus

- **bydd dioddefwyr yn aml yn gofyn am gefnogaeth i gyflawnwyr cam-drin domestig:** Er y gall disgwyliadau dioddefwyr o raglenni cyflawnwyr fod yn afrealistig, gall fod yn rhywbeth maent am roi cynnig arno cyn iddynt ystyried cymryd unrhyw gamau eraill. Un o'r prif resymau a roddir gan ddioddefwyr dros aros mewn perthynas gamdriniol yw bod eu partner wedi addo newid. Gall dioddefwyr hefyd deimlo mai nhw'n unig sydd angen gwneud rhywbeth am y gamdriniaeth (e.e. gadael) yn hytrach na'r cyflawnwr

- **bydd y rhan fwyaf o gyflawnwyr yn dechrau perthynas gyda rhywun arall, gan greu dioddefwyr newydd efallai:** Cyflawnwr cam-drin domestig yw tarddiad ac achos y cam-drin bob tro. Ni wnant newid eu hymddygiad am eu bod mewn perthynas newydd ac maent yn debygol o barhau i ymddwyn mewn ffordd gamdriniol ac felly gael effaith bellach ar y Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru

- **gall cyflawnwyr fod mewn sawl perthynas:** Er mai dim ond un berthynas efallai y bydd y Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymwybodol ohoni, gall cyflawnwyr fod mewn sawl perthynas, felly

[16] Iechyd Cyhoeddus Cymru http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/88518
[17] https://llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-y-strategaeth-genedlaethol

gall cwmpas ac effaith bosibl eu hymddygiad camdriniol fod yn ehangach na'r hyn sy'n amlwg i ddechrau

- **mae cam-drin domestig yn costio'n ddrud i'r Gwasanaethau Cyhoeddus:** Amcangyfrifir bod cam-drin domestig yng Nghymru yn costio £303.5 miliwn y flwyddyn – £202.6m mewn costau gwasanaeth a £100.9m mewn colledion mewnbwn economaidd.[18] Gwasanaethau gofal cymdeithasol, iechyd a chyfiawnder troseddol sy'n talu am hyn
- **efallai y bydd cyflawnwyr am newid:** Mae llawer o gyflawnwyr yn ymwybodol nad yw eu hymddygiad yn dderbyniol ond ni theimlant eu bod yn gallu newid. Gallai'r Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n helpu i leihau'r stigma sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig ac sy'n helpu pobl i newid ddarparu llwyfan i rywun fynd i'r afael â'i ymddygiad

7.6 Felly mae'n bwysig bod staff y Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru hefyd yn ymwybodol o'u rôl eu hunain mewn perthynas â gweithio gyda chyflawnwyr cam-drin domestig. Tra bod gwaith manwl a dwys gyda chyflawnwyr cam-drin domestig yn faes ymarfer arbenigol, mae amrywiaeth o bethau y gall y Gwasanaethau Cyhoeddus eu gwneud fel rhan o'u rolau eu hunain i gefnogi'r gwaith hwn a helpu i hwyluso newid. Ni fydd angen neu ni fydd modd i bob cyflawnwr neu ddarpar gyflawnwr gael gafael ar wasanaethau arbenigol, ac felly gall y Gwasanaethau Cyhoeddus chwarae rhan annatod yn y gwaith o helpu'r unigolyn i newid. Mae'r canllawiau hyn yn archwilio'r themâu allweddol sy'n gysylltiedig â gwaith o'r fath ac yn darparu pwyntiau ymarfer ar gyfer staff y Gwasanaethau Cyhoeddus.

## 8. Ystyriaethau ymarfer wrth weithio gyda chyflawnwyr cam-drin domestig

[18] Walby, Sylvia. The Cost of Domestic Violence: Update 2009

8.1 Mae sawl elfen o'r Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru yn gweithio gyda theuluoedd. Lle caiff cam-drin domestig ei ddatgelu neu ei amau, rhaid parhau i ganolbwyntio ar y teulu. Fodd bynnag, rhaid i'r gweithwyr proffesiynol hynny sy'n gweithio gyda theuluoedd lle mae cam-drin domestig yn broblem fod yn ymwybodol o'r risgiau a'r materion o ran ymarfer sy'n gysylltiedig â gwaith o'r fath, a sicrhau bod camau gweithredu, craffu ac ymarfer ar waith i liniaru'r fath risg.

8.2 Mae'r adran ganlynol yn amlinellu rhai o'r ystyriaethau ymarfer craidd i'w gwneud wrth weithio gyda chyflawnwyr cam-drin domestig neu deuluoedd lle mae cam-drin domestig yn broblem hysbys neu'n cael ei amau.

**Capasiti a gweithio ar wahân**

8.3 Lle bydd asiantaeth Gwasanaeth Cyhoeddus yn gweithio gyda theulu cyfan mae'n bwysig gweithio gyda dioddefwyr a chyflawnwyr ar wahân o ran cam-drin domestig. Gall hyn fod yn heriol am fod adnoddau'n brin, ond rhaid rhoi blaenoriaeth i reoli risgiau a diogelu dioddefwyr.

8.4 Mewn achosion o'r fath, bydd angen rhoi digon o flaenoriaeth i'r gwaith gyda dioddefwyr a chyflawnwyr er mwyn lleihau niwed o fewn llwythi achos ymarferwyr. Mewn llawer o achosion bydd angen penodi ail ymarferydd i weithio gyda'r teulu er mwyn sicrhau bod anghenion y ddau oedolyn yn cael eu cydnabod a bod y risg o gynllwynio (gweler adran 8.16-18) yn cael ei lliniaru. Bydd angen i'r ddau ymarferydd gydweithio'n agos er mwyn cynnal gwrthrychedd proffesiynol a diogelu unrhyw blant neu oedolion agored i niwed.

8.5 Lle bydd y dioddefwr a'r cyflawnwr yn rhyngweithio, bydd angen i staff fod yn ofalus iawn nad yw'r dioddefwr yn wynebu mwy o risg, er enghraifft, drwy ddatgelu gwybodaeth a rannwyd yn gyfrinachol neu dybio bod y ddau yn gytûn o ran penderfyniadau a threfniadau teuluol. Rhaid sicrhau na thybir bod rolau'r dioddefwr a'r cyflawnwr yn gwbl ar

wahân (er enghraifft, ystyried ymddygiad dioddefwyr nad yw'n ddefnyddiol neu ymddygiad cyflawnwyr sy'n ddefnyddiol).

8.6 Pan fydd y sawl sydd wedi'i gam-drin yn defnyddio gwasanaethau'r sefydliad hefyd a bod y berthynas yn parhau, dylai unrhyw sesiynau cyswllt a drefnir gael eu cynnal ar wahân.

8.7 Pan fydd y sawl sydd wedi'i gam-drin yn defnyddio gwasanaethau'r sefydliad hefyd a bod y berthynas wedi dod i ben, dylid trefnu apwyntiadau i leihau'r risg y bydd y cyflawnwr a'r dioddefwr yn dod i gysylltiad â'i gilydd.

**Prosesau diogelu a cham-drin domestig**

8.8 Os cynhelir Cynadleddau Amddiffyn Plant, Cynadleddau Amddiffyn Oedolion neu gyfarfodydd amlasiantaethol eraill, dylai'r Cadeirydd, mewn ymgynghoriad â gweithwyr proffesiynol perthnasol, asesu'r risgiau'n ofalus o ran cyfranogiad y cyflawnwr. Gall fod yn fwy addas iddo fynychu ar wahân os yw'r risgiau'n rhy fawr.

8.9 Dylid gwneud trefniadau diogel addas i fynd i mewn ac allan o'r adeilad lle cynhelir y Gynhadledd neu gyfarfodydd amlasiantaethol eraill, yn ogystal ag ardaloedd aros.

8.10 Bydd cofnod y cyfarfodydd yn adlewyrchu'r ystyriaethau diogelwch i'r sawl sy'n cymryd rhan a dylai unrhyw achos posibl o ddatgelu gwybodaeth drwy'r cofnodion gael ei ystyried yn ofalus.

8.11 Bydd angen i reolwyr y Gwasanaethau Cyhoeddus sydd â chyfrifoldeb diogelu dros blant fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'w rôl. Dylent fod yn gyfrifol am rannu gwybodaeth gymesur â staff rheng flaen a goruchwylio'r gwaith o gyflawni unrhyw weithgaredd rheoli risg sy'n ofynnol neu gyfrannu at gynlluniau Amddiffyn Gofal a Chymorth.

8.12 Dylai gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a heb ddod i fawr ddim cysylltiad ag oedolion, fod yn ymwybodol pan fydd risg y bydd cyflawnwr yn cymryd y plentyn hwnnw allan o'r gwasanaeth (er enghraifft, ysgol) yn groes naill ai i Gynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth, gorchymyn llys neu gyfyngiadau sy'n gysylltiedig â Chyfiawnder Troseddol.

8.13 Dylai gweithwyr proffesiynol fod yn ystyriol o'r posibilrwydd o gynyddu risg wrth weithio gyda chyflawnwyr. Nodir dangosyddion risg yn adran 11. Lle teimlir bod y risg yn cynyddu, dylid cymryd camau diogelu priodol a/neu atgyfeirio at yr adran gwasanaethau cymdeithasol lle mae amheuon bod plentyn neu oedolyn mewn perygl yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Dylid cadw cofnod o'r camau a gymerwyd.

**Diogelwch proffesiynol**

8.14 Gall cyflawnwyr cam-drin domestig beri risg i'r rheini sydd y tu allan i'w teulu a all gynnwys y gweithwyr proffesiynol maent yn gweithio gyda nhw. Rhaid cymryd gofal i asesu unrhyw risgiau posibl i weithwyr proffesiynol sydd ynghlwm wrth ddarparu gwasanaethau i deulu lle mae cam-drin domestig yn broblem. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau cymorth a gynigir i ddioddefwr neu blentyn. Dylid creu protocolau rhannu gwybodaeth er mwyn sicrhau bod pob asiantaeth dan sylw yn ymwybodol o'r risg bosibl i staff. Dylai cyflogwyr sicrhau bod cymorth ar gael i staff a all fod mewn perygl er mwyn sicrhau eu llesiant a lleihau'r risg o gynllwynio.

**Ymweliadau â'r cartref**

8.15 Dylai asesiadau risg trylwyr gael eu cwblhau a'u cofnodi cyn ymweld â chartref lle mae cam-drin domestig yn broblem. Os bydd asesiad risg yn codi pryderon, fel rheol ni ddylai gweithiwr proffesiynol ymweld â chartref ar ei ben ei hun a, lle bo angen, dylid cael cymorth gan yr heddlu neu bartneriaid eraill. Dylai gweithwyr proffesiynol siarad â'u

rheolwr a chyfeirio at ganllawiau eu hasiantaeth ar ddiogelwch staff. Dylai diogelwch staff fod yn flaenoriaeth a lle ystyrir bod gweithio'n unigol yn risg uchel, dylid darparu adnoddau fel nad oes angen gwneud hyn.

8.16 Dylid creu protocolau rhannu gwybodaeth er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am risgiau posibl i staff yn cael ei rhannu ag asiantaethau sy'n ymweld â chartrefi. Dylai protocolau o'r fath ddilyn y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Ddata[19] a/neu unrhyw reoliadau diogelu data cymwys ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd. Rhydd Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru[20] ganllawiau defnyddiol ar sut y gall protocolau rhannu gwybodaeth priodol gael eu datblygu ac mae'n cynnig templedi.

8.17 Dylai cofnodion asiantaethau nodi'n glir lle mae cyflawnwr yn peri risg bosibl i staff fel bod unrhyw gyflogai sy'n ymdrin â'r achos yn ymwybodol ohoni. Dylid darparu cymorth i staff gefnogi eu llesiant lle gallant fod mewn perygl.

8.18 Gall ymweld â chartrefi fod yn ffordd hynod ddefnyddiol o gael gwybodaeth i ategu cynlluniau rheoli risg a diogelu. Gall y wybodaeth hon gael ei bwydo i mewn i fforymau priodol er mwyn sicrhau bod cynlluniau diogelwch yn cael eu diweddaru. Rhydd Adran 10 fwy o wybodaeth am ble y gellir anfon gwybodaeth.

[19] https://ec.europa.eu/commission/priorities/justice-and-fundamental-rights/data-protection/2018-reform-eu-data-protection-rules_en
[20] http://www.waspi.org/hafan

**Astudiaeth achos**

Wrth ymweld â'r cartref, mae gweithiwr cymdeithasol Peter yn sylwi bod ei wraig yn gwingo pan fo Peter yn mynd i deimlo'n rhwystredig ac yn codi ei lais. Mae'r gweithiwr cymdeithasol yn trafod hyn gyda'i rheolwr llinell nôl yn y swyddfa ac yn penderfynu hysbysu swyddog trais domestig lleol yr heddlu lleol am ei phryderon. Maent yn trafod ffyrdd posibl o godi'r mater gyda Peter mewn ffordd ddiogel.

**Cynllwynio**

8.19 Gall llawer o gyflawnwyr cam-drin domestig fod yn ystrywgar. Wrth weithio gyda chyflawnwyr, bydd angen i ymarferwyr fod yn ofalus nad ydynt yn defnyddio iaith sy'n cynllwynio â chamdriniaeth y cyflawnwr neu'n credu ei stori heb gadarnhau manylion gydag asiantaethau partner.

8.20 Bydd angen i ymarferwyr allu gwahaniaethu'n glir rhwng cydweithrediad ac ymgysylltiad cyflawnwyr â'r gwasanaeth a ddarperir a'u gallu i achosi niwed. Mae cyflawnwyr cam-drin domestig yn unigolion galluog a chymwynasgar yn aml na fyddent fel arfer yn peri unrhyw bryder i asiantaeth, er enghraifft, drwy beidio ag ymgysylltu ag apwyntiadau neu wasanaethau neu fynegi teimladau neu agweddau amhriodol. Gall trafod achosion mewn sesiynau cymheiriaid neu sesiynau goruchwylio clinigol fod yn ffordd ddefnyddiol o sicrhau bod darlun cywir o gynnydd yn cael ei lunio.

8.21 Mae hefyd yn bwysig bod ymarferwyr yn ystyriol o bwysigrwydd gweithio gyda chymhlethdod dioddefwyr. Nid yw bob amser yn hawdd ymgysylltu â dioddefwyr cam-drin domestig ac efallai na fyddant yn hawdd ymgysylltu â nhw, yn gymwynasgar neu'n oddefol. Ni ddylai ymarferwyr dybio bod llai o risg oherwydd hyn[21].

[21] Donovan, C. a Hester, M. (2010). "I Hate the Word "Victim"': An Exploration of Recognition of Domestic Violence in Same Sex Relationships 1. *Social Policy and Society, 9*(2), .279-289

8.22 Pan fo'r ddau bartner yn gallu bod yn dreisgar bydd mwy o risg i oedolion a phlant, ac felly dylid bod yn ofalus wrth ymdrin ag achosion o'r fath.

**Astudiaeth achos**

Mae Ashley wedi bod yn feddyg teulu i'r teulu Jones ers sawl blwyddyn. Mae'n ymwybodol bod Mr Jones wedi cael rhybudd am ymosod ar ei wraig yn y gorffennol. Mae Mr Jones bob amser yn glên iawn yn ei apwyntiadau ac yn dweud bod popeth yn iawn nawr am ei fod ef a'i wraig wedi cytuno i beidio â gweiddi ar ei gilydd. Nid yw Mrs Jones yn barod i siarad am y sefyllfa gartref a gall fynd yn amddiffynnol iawn. Mae hefyd wedi colli apwyntiadau a drefnwyd iddi gan Ashley gyda'r tîm iechyd meddwl. Mae Ashley yn dechrau meddwl na all pethau fod mor ddrwg â hynny ac mai ffrae gyffredin a aeth dros ben llestri oedd hi. Drwy drafod yr achos gyda chydweithiwr, sylweddolodd Ashley fod ei rhwystredigaeth gyda Mrs Jones yn gwneud iddi gredu stori Mr Jones ar lefel isymwybodol a gall ystyried y rhesymau dros ymddygiad Mrs Jones yn fwy gwrthrychol.

**Astudiaeth achos**

Fel rhan o'i rôl yn y ganolfan gwaith, mae Laura yn cael apwyntiadau rheolaidd gyda Connor. Mae gan Connor farn gref iawn am fenywod ac mae'n aml yn gwneud sylwadau cas am ei bartner. Mae Laura wedi codi ei phryderon drwy'r sianelau priodol, ond mae'n dal i boeni am bartner Connor pan fydd hi gartref. Mae Laura yn siarad â'i rheolwr llinell sy'n ei sicrhau ei bod wedi gwneud popeth o fewn ei gallu. Mae Laura yn datgelu ei bod hi'n ei chael hi'n anodd gweithio gyda Connor am ei fod yn ei hatgoffa o'i thad. Mae rheolwr Laura yn rhoi gwybodaeth iddi am y system cymorth staff ac mae'n ei helpu i atgyfeirio ei hun at gwnselydd. Trafodir p'un a yw'n iawn i Laura barhau i ddelio ag achos Connor.

**Cymunedau ar y cyrion**

8.23 Dylai'r Gwasanaethau Cyhoeddus fod yn ymwybodol o natur agored i niwed gynyddol grwpiau ar y cyrion fel LGBT+, pobl anabl, cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, sipsiwn, Roma a theithwyr a'r rhai â nodweddion gwarchodedig eraill. Gan fod y grwpiau hyn yn aml yn profi gwahaniaethu ac anfantais eisoes, gall fod yn fwy anodd iddynt gael help a/neu ddod o hyd i wasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion yn briodol[22]. Gall cyfieithydd annibynnol (er enghraifft, os nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf neu lle defnyddir Iaith Arwyddion Prydain) fod yn ddefnyddiol i hwyluso trafodaethau.

8.24 Mae'n bwysig bod gweithwyr proffesiynol yn ymwybodol o effaith y nodwedd warchodedig neu'r nodweddion gwarchodedig ar y cyflawnwr, y dioddefwr a'r ymddygiad camdriniol fel bod modd ystyried y rhain. Er enghraifft, efallai na fydd rhai grwpiau yn teimlo ei bod hi'n dderbyniol siarad am eu cydberthnasau y tu allan i'r teulu; gall nam poenus beri rhwystredigaeth a dicter sy'n cyfrannu at ymddwyn mewn ffordd gamdriniol; gall problemau iechyd meddwl waethygu ymddygiad camdriniol tra bod y feddyginiaeth gywir yn ei leihau; gall profiadau blaenorol o'r Gwasanaethau Cyhoeddus wneud i unigolyn deimlo na allant ymddiried mewn gweithwyr proffesiynol. Yn ogystal â siarad ag unigolion, gall fod yn ddefnyddiol i wasanaethau gael gwybodaeth gan grwpiau cymunedol/elusennol lleol er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r problemau sy'n wynebu gwahanol grwpiau ar y cyrion yn eu hardaloedd.

**Cofnodi gwybodaeth**

8.25 Dylid cadw cofnodion clir a chynhwysfawr o'r holl ryngweithio ag achosion lle mae cam-drin domestig yn peri pryder. Dylai pob asiantaeth gadw cofnodion o benderfyniadau er mwyn dangos tystiolaeth o'r broses feddwl, er enghraifft, pam y gwnaed neu na wnaed atgyfeiriadau. Rhaid gwneud penderfyniadau cyfiawn, h.y. rhai a

[22] Chaviz, A.Z. a Hill, M.S. (2009). Integrating Multiple Intersecting Identities: A Multicultural Conceptualization of the Power and Control Wheel. *Women & Therapy, 32*:1–29

all wrthsefyll 'craffu ôl-ddoethineb'. Mae system cadw cofnodion dda yn helpu i rannu gwybodaeth a rheoli achosion, gan alluogi gweithwyr proffesiynol i adolygu'r hyn a wnaed eisoes a phenderfynu a oes angen gweithredu ymhellach. Nodwyd mai problemau cadw cofnodion a'r analluu i rannu gwybodaeth yn effeithiol wedyn yw'r thema fwyaf cyffredin mewn achosion o ddynladdiadau perthynas agos[23].

**Rhannu gwybodaeth**

8.26 Gall gweithio gyda chyflawnwyr cam-drin domestig arwain at ddatgelu gwybodaeth sy'n dynodi bod risg i oedolyn neu blentyn arall. Mewn achosion o'r fath mae'n bwysig bod y wybodaeth hon yn cael ei rhannu a'i thrin mewn ffordd briodol a chyfreithlon yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a/neu unrhyw reoliadau diogelu data cymwys ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd. Dylai staff gyfeirio at brotocol rhannu gwybodaeth a gweithdrefnau diogelu'r sefydliad mewn achosion o'r fath. Mae Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru yn darparu cofrestr o brotocolau rhannu gwybodaeth sy'n bodoli eisoes.

8.27 Ni ddylai'r broses o ddiogelu data personol gael ei hystyried yn rhwystr i rannu gwybodaeth am risgiau. Yn aml bydd diffyg rhannu gwybodaeth yn ffactor mewn dynladdiadau domestig[24] ac mae'n golygu na welir y risg lawn na'i rheoli. Gall protocolau rhannu gwybodaeth safonol gael eu sefydlu rhwng sefydliadau sy'n golygu bod modd rhannu gwybodaeth yn awtomatig pan gyrhaeddir y trothwy cytûn.

8.28 Ym mhob achos, dylai gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r risg o niwed a berir gan gyflawnwyr gael ei rhannu â'r Uned Amddiffyn y Cyhoedd berthnasol ar gyfer ardal neu ranbarth yr heddlu (er enghraifft, Uned Cam-drin Domestig yr heddlu, Canolfan Diogelu Amlasiantaethol, Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg).

[23] Y Swyddfa Gartref (2016). *Domestic Homicide Reviews: Key findings from Domestic Homicide Reviews.* Y Swyddfa Gartref
[24] Y Swyddfa Gartref (2016). *Domestic Homicide Reviews: Key findings from Domestic Homicide Reviews.* Y Swyddfa Gartref

8.29 Mae'n arfer da i gofnodion sefydliadau sy'n ymwneud â dioddefwyr a chyflawnwyr gael eu diweddaru fel mater o flaenoriaeth ac o fewn 24 awr bob amser.

8.30 Lle y bo modd, dylai staff sy'n gweithio gyda'r cyflawnwr a'r rhai sy'n gweithio gyda'r dioddefwr fod yn rhan o 'dîm rhithwir'. Dylai'r tîm rhithwir rannu gwybodaeth berthnasol er mwyn sicrhau diogelwch y dioddefwr ac unrhyw blant lle mae'n briodol ac yn gyfreithlon.

8.31 Wrth rannu gwybodaeth, rhaid nodi'n glir ei bod yn ymwneud â cham-drin domestig. Mae adolygiadau o ddynladdiadau domestig wedi nodi, os na chaiff pryderon yn ymwneud â cham-drin domestig eu hamlygu, efallai na chânt eu blaenoriaethu'n briodol[25].

**Astudiaeth achos**

Mae Hannah yn adolygu protocolau rhannu gwybodaeth ei hasiantaeth ac yn sylweddoli nad oes ganddi un â'r heddlu. Fel uwch-reolwr mae'n cydnabod mai ei chyfrifoldeb hi yw sicrhau bod ei staff yn gallu gwneud datgeliadau a rhannu gwybodaeth mor gyflym a hawdd â phosibl. Mae'n cysylltu â'r heddlu lleol ac yn trefnu cyfarfod i ddatblygu protocol.

**Gwaith rheoli llinell**

8.32 Lle mae staff yn gweithio gyda theuluoedd yn ymwneud â cham-drin domestig neu gyflawnwyr cam-drin domestig, dylai goruchwyliaeth rheoli llinell gynnwys yn glir sgyrsiau am y gwaith hwn er mwyn adolygu'r risg, ystyried gwrthrychedd parhaus yr aelod o staff a chydnabod heriau'r gwaith hwn. Dylai gwasanaethau cymorth fod ar gael i staff er mwyn cefnogi llesiant.

[25] Y Swyddfa Gartref (2016). *Domestic Homicide Reviews: Key findings from Domestic Homicide Reviews.* Y Swyddfa Gartref

**Rheoli honiadau deuol neu wrth-honiadau**

8.33 Mae'n gyffredin i gyflawnwyr cam-drin domestig wneud gwrth-honiadau o drais neu gamdriniaeth yn erbyn y dioddefwr. Gall honiadau o'r fath ei gwneud hi'n anodd i Wasanaethau Cyhoeddus ddyrannu gwasanaethau priodol, deall risgiau a diwallu anghenion pob aelod o'r teulu.

8.34 Mae'n bwysig bod pob honiad o gam-drin domestig yn cael ei gymryd o ddifrif a bod ymateb effeithiol yn cael ei gynnig. Mewn achosion o'r fath mae'n ddefnyddiol ymgysylltu â gwasanaethau ar gyfer y cyflawnwr honedig a'r dioddefwr. Yn y rhan fwyaf o achosion bydd y gwasanaethau arbenigol dan sylw yn gwneud gwaith cychwynnol gyda'r ddau barti ar wahân er mwyn deall eu hanghenion. Yn achos gwrth-honiadau gall hyn gynnwys rhywfaint o asesu ymddygiad rheoli sylfaenol er mwyn helpu i weld pwy yw'r prif ddioddefwr neu gyflawnwr. Mae hwn yn ddarn arbenigol o waith a dim ond sefydliad arbenigol a ddylai ei wneud.

8.35 Mae'n bwysig nodi bod gwneud honiadau anwir yn fath o gam-drin ac os felly gall hyn fod yn dystiolaeth o gam-drin parhaus. Mewn rhai amgylchiadau, gall gwneud honiadau anwir gyfateb i drosedd, felly dylid cael cyngor cydweithwyr yn yr heddlu.

**Pwyntiau ymarfer**

- Dylai protocolau rhannu gwybodaeth gael eu datblygu rhwng asiantaethau er mwyn sicrhau bod modd rhannu gwybodaeth yn gyflym ac yn hawdd pan nodir risgiau

- Dylid gweithio gyda chyflawnwyr a dioddefwyr ar wahân lle bynnag y bo modd er mwyn lleihau'r risg i ddioddefwyr ac annog datgeliadau agored
- Dylai asesiadau risg gael eu cynnal ar gyfer unrhyw sefyllfa lle mae angen i ddioddefwyr a chyflawnwyr fod yn bresennol.
- Dylai gwybodaeth am y risg i staff gael ei chofnodi'n glir ar ffeiliau a chael ei rhannu â phob aelod o staff sydd ynghlwm wrth yr achos
- Dylai asesiadau risg gael eu cynnal ar gyfer pob ymweliad â chartref lle mae cam-drin domestig yn peri pryder. Lle tybir bod y risg i staff yn uchel, dylid osgoi gweithio unigol.
- Dylai staff sy'n gweithio gydag achosion o gam-drin domestig gael cymorth. Gall goruchwyliaeth glinigol neu gan gymheiriaid fod yn fforwm defnyddiol i drafod achosion a diogelu rhag cynllwynio neu ymddwyn mewn ffordd ystrywgar. Dylai cymorth allanol fod ar gael lle bo modd i staff y mae'r gwaith hwn yn effeithio arnynt
- Dylai asiantaethau feithrin cysylltiadau â chymunedau a grwpiau lleol sydd ar yr ymylon er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r materion sy'n effeithio arnynt
- Dylai cofnodion clir gael eu cadw gan bob asiantaeth. Lle codir pryderon ynghylch cam-drin domestig dylai hyn gael ei labelu'n glir. Dylai cofnodion gynnwys cofnodion ynghylch penderfyniadau a rhaid gwneud penderfyniadau cyfiawn

**Pwyntiau Strategol**

- Dylai Uwch-arweinwyr sicrhau bod gwaith rhyngasiantaethol a rhannu gwybodaeth yn rhan o gylch gwaith y sefydliad
- Dylai arweinwyr annog diwylliant o rannu gwybodaeth priodol a meithrin dealltwriaeth y gall rhannu gwybodaeth achub bywydau

## 9. Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru fel asiantaethau atgyfeirio

9.1 Drwy eu cysylltiad â'r cyhoedd, bydd y Gwasanaethau Cyhoeddus yn aml mewn sefyllfa lle mae angen iddynt atgyfeirio dioddefwyr neu gyflawnwyr ymlaen at wasanaethau eraill. Mae'r hyn sydd ar gael i gyflawnwyr ledled Cymru yn amrywio yn ôl rhanbarth ac fe'i darperir gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi a'r trydydd sector. Mae'r adran ganlynol yn amlinellu opsiynau atgyfeirio posibl i gyflawnwyr, p'un a ydynt yn ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol ai peidio.

### 9.a Rhaglenni cymunedol i gyflawnwyr

9.2 Mae dull ymyrryd ar raddfa fach ond sydd wedi'i ddatblygu'n dda ar gyfer cyflawnwyr yn y gymuned (y tu allan i'r system cyfiawnder troseddol) ar waith, sy'n cynnig Rhaglenni Cyflawnwyr Trais Domestig i'r rhai sy'n awyddus i gael help gyda'u hymddygiad eu hunain.

9.3 Mae'r rhaglenni hyn yn cynnig llwybr atgyfeirio posibl i'r Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn cynnig cymorth a mynd i'r afael ag ymddygiad cleientiaid sy'n cam-drin ac yn defnyddio trais.

9.4 Mae Rhaglenni Cyflawnwyr Trais Domestig yn rhaglenni gwaith grŵp cymunedol sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda chyflawnwyr cam-drin domestig gyda'r nod o newid eu hymddygiad ac atal mwy o gam-drin a thrais. Gallant amrywio o ran hyd, nifer y cleientiaid, y model gwaith a'r lleoliad sefydliadol.

9.5 Bydd y rhaglenni hyn hefyd yn aml yn cynnig gwasanaethau diogelwch a chymorth i bartneriaid ac, mewn rhai achosion, i blant. Bydd llawer yn darparu cyngor i lysoedd teulu, gwasanaethau plant, CAFCASS

(Gwasanaeth Cynghori a Chymorth y Llys Plant a Theuluoedd) a chynadleddau amddiffyn plant.

9.6 Nid yw Rhaglenni Cyflawnwyr Trais Domestig yn ceisio cadw teuluoedd gyda'i gilydd, na'u chwalu. Eu nod yw gweithio'n effeithiol gyda chyflawnwyr er mwyn cadw eu partneriaid a'u plant yn ddiogel. Canlyniad gorau'r rhaglenni hyn i gyflawnwyr yw bod yr holl drais a cham-drin yn dod i ben ac nad oes risg mwyach i'w partner, cynbartner, partneriaid yn y dyfodol na phlant.[26]

9.7 Yn 2015, cyhoeddodd Prifysgol Metropolitan Llundain a Phrifysgol Durham eu hadroddiad terfynol ar brosiect ymchwil pum mlynedd annibynnol "Mirabal"[3]. Archwiliodd ganlyniad ymwneud dynion â'r rhaglenni hyn a achredwyd gan Respect.

9.8 Dangosodd yr ymchwil fod rhaglenni wedi'u rhedeg yn dda yn lleihau trais corfforol a rhywiol a'r defnydd o arfau, yn gwneud i fenywod deimlo'n fwy diogel ac yn lleihau faint o drais a oedd yn cael ei weld neu ei glywed gan blant. Fodd bynnag, mae beirniadaeth o adroddiad Mirabal yn awgrymu bod cyfyngiadau'r astudiaeth yn golygu na ellir dweud bod ei ganfyddiadau yn cefnogi rhaglenni wedi'u hachredu gan Respect[27].

9.9 Yn ddiweddar mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi asesiad cyflym o’r dystiolaeth o'r hyn y dengys ymchwil sy’n gweithio gyda chyflawnwyr cam-drin domestig[28]. Ni nododd yr adolygiad hwn o'r dystiolaeth sydd ar gael gefnogaeth i unrhyw ddull penodol o ymdrin â chyflawnwyr cam-drin domestig yn fwy nag un arall. Nododd bwysigrwydd mynd i'r afael â phroblemau camddefnyddio sylweddau lle bo'n briodol a natur addawol ymyriadau a oedd yn cynnwys elfen

[26] Kelly L, Westmarland N (2015) *Domestic Violence Perpetrator Programmes: Steps Towards Change. Project Mirabal Final Report.* Llundain a Durham: Prifysgol Metropolitan Llundain a Phrifysgol Durham http://respect.uk.net/highlights-mirabal-research-findings-respect-accredited-domestic-violence-perpetrator-programmes-work/
[27] Bates, E. A., Graham-Kevan, N., Bolam, L. T., a Thornton, A. J. V. (2017). A Review of Domestic Violence Perpetrator Programs in the United Kingdom. *Partner Abuse, 8*(1).
[28] https://llyw.cymru/asesiad-cyflym-or-dystiolaeth-beth-syn-gweithio-gyda-chyflawnwyr-cam-drin-domestig

gymhellol ac yn canolbwyntio ar y teulu. Hefyd, tanlinellodd werth dull system gyfan o fynd i'r afael â cham-drin domestig.

9.10 O fewn Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, caiff Rhaglenni Cyflawnwyr Trais Domestig eu hachredu gan Banel Achredu a Chynghori Gwasanaethau Cywirol (CSAAP), sy'n sicrhau bod ymyriadau yn deillio o'r sail dystiolaeth bresennol. Rhaid i wasanaethau Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi fodloni meini prawf archwilio llym sy'n sicrhau uniondeb y driniaeth a bod yr ymyriad o ansawdd da, a adolygir bob chwe mis.

9.11 Mae Respect yn cynnig gwasanaeth achredu sydd â safonau seiliedig ar dystiolaeth gofynnol ar gyfer sefydliadau sy'n gweithio gyda chyflawnwyr (Safon Respect[29]), a ddiweddarwyd yn 2017. Hefyd mae gan Respect broses achredu y gall sefydliadau ei dilyn er mwyn dangos eu bod yn cyrraedd Y Safon. Os caiff sefydliad ei achredu gan Respect yn seiliedig ar y safon ddiweddaraf, ystyrir bod y Rhaglenni Cyflawnwyr Trais Domestig mae'n eu rhedeg hefyd wedi'u hachredu. Mae meini prawf archwilio llym ar waith a ddefnyddir i sicrhau bod y safonau yn cael eu dilyn, a thrwy hynny sicrhau ansawdd y ddarpariaeth. Rhaid ail-achredu bob tair blynedd.

9.12 Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu canllawiau ar gyfer safonau gofynnol ar gyfer gwasanaethau cyflawnwyr VAWDASV, gan gynnwys Rhaglenni Cyflawnwyr Trais Domestig nad ydynt wedi'u hachredu. Anogir gwasanaethau sy'n cynnig y rhaglenni hyn ar sail unigol neu grŵp i gasglu tystiolaeth er mwyn dangos sut maent yn cyrraedd y safonau hyn. Cynghorir gwasanaethau comisiynu i sicrhau bod y gwasanaethau maent yn eu hariannu wedi'u hachredu gan Respect neu CSAAP, neu eu bod yn cyrraedd safonau gofynnol Llywodraeth Cymru.

[29] http://respect.uk.net/wp-content/uploads/2017/02/Respect-Standard-15.11.17.pdf

9.13 Gall Rhaglenni Cyflawnwyr Trais Domestig fod ar sawl ffurf; fodd bynnag, ni waeth beth yw eu fformat, mae'n bwysig bod unrhyw ymyriadau gyda chyflawnwyr yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Gall ymyriadau aneffeithiol neu ymyriadau sydd heb eu targedu'n briodol niweidio dioddefwyr a chynyddu'r risg iddynt.

**Sefydlu a rheoli disgwyliadau Rhaglenni Cyflawnwyr Trais Domestig.**

9.14 Er y dylai holl staff perthnasol y Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru roi sylw priodol i'r rôl y gall y rhaglenni cymunedol hyn ei chwarae fel rhan o'r gwasanaethau ehangach a ddarperir, mae'n bwysig, wrth wneud hynny, eu bod yn defnyddio'r rhaglenni'n briodol ac yn deall yr effaith a'r canlyniadau realistig sy'n gysylltiedig â nhw.

9.15 Gall gweld cyflawnwr yn dilyn rhaglen roi gobaith i ddioddefwyr y bydd eu partner treisgar yn newid. Gall sefydliadau rannu'r gobaith hwn. Er y gall Rhaglenni Cyflawnwyr Trais Domestig fod yn effeithiol, ni weithiant gyda phob cyflawnwr cam-drin domestig ac efallai na newidiant bob elfen o ymddygiad camdriniol. Er enghraifft, gall trais rhywiol orffen ond gallai math arall o ymddygiad sy'n rheoli barhau. Mae'n bwysig cefnogi dioddefwyr i gael disgwyliadau realistig a bod gan weithwyr proffesiynol amheuaeth iach am effeithiau'r rhaglenni hyn er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i ganolbwyntio ar y risgiau i deulu.

9.16 Mae rhai sefydliadau a arweinir gan oroeswyr yn codi pryderon y gall dilyn rhaglen i gyflawnwyr roi mwy o gyfleoedd iddynt fod yn ystrywgar a rheoli eu partneriaid. Gall y mathau hyn o ymddygiad ystrywgar gynnwys dweud celwydd am fynychu apwyntiadau, defnyddio deunydd y rhaglen i feirniadu a rheoli ymddygiad y dioddefwr, defnyddio jargon a chysyniadau a ddysgwyd ar y rhaglen i fanipwleiddio'r dioddefwr a defnyddio'r ffaith y dilynir y rhaglen i ddylanwadu ar benderfyniadau gweithwyr proffesiynol eraill fel gweithwyr cymdeithasol, swyddogion CAFCASS, a'r llysoedd.[30]

[30] Briffiad Cymorth i Ferched - perpetrator work in the UK, Gorffennaf 2007 http://www.womensaid.org.uk/domestic-violence-articles.asp?section=00010001002200180001&itemid=1080

## 9.b Opsiynau Cyfiawnder Troseddol

9.17 Gall Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi argymell dedfrydau ar gyfer cyflawnwyr sy'n cael eu herlyn. Er na fydd modd i'r Gwasanaethau Cyhoeddus eraill argymell na chyfeirio at unrhyw opsiwn dedfrydu penodol, efallai y gallant ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol er mwyn helpu i lywio argymhellion Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi.

9.18 Mae nifer o fentrau cyfiawnder troseddol yn bodoli bellach sy'n cynnig cyfle i'r Gwasanaethau Cyhoeddus eraill chwarae rhan ac, fel y cyfryw, mae'n ddefnyddiol i staff y Gwasanaethau Cyhoeddus fod yn ymwybodol o hyn.

**WISDOM** *(Rheoli Troseddwyr Difrifol a Pheryglus Integredig Cymru)*

9.19 Nod WISDOM yw gostwng cyfraddau aildroseddu a'r risg o niwed difrifol drwy dîm amlasiantaethol sy'n cynnwys yr heddlu, y gwasanaeth prawf, gwasanaethau seicolegol fforensig a phartneriaid lleol eraill sy'n gweithio gyda'i gilydd[31]. Mae WISDOM yn gweithio gyda throseddwyr sy'n cael eu goruchwylio yn y gymuned, sydd dan oruchwyliaeth trwydded a'r rhai nad ydynt yn cael eu goruchwylio'n statudol er mwyn lleihau risg. Un o brif rolau WISDOM yw rheoli cyflawnwyr yn effeithiol. Mae'r broses yn cydnabod bod dioddefwyr yn aml yn dal i fod mewn perthynas â chyflawnwyr ac felly mae pob proses yn canolbwyntio ar ddiogelwch pawb dan sylw.

**Gorchmynion Amddiffyn Trais Domestig**

9.20 Cyflwynwyd Gorchmynion Amddiffyn Trais Domestig ledled Cymru a Lloegr ym mis Mawrth 2014. Cânt eu sbarduno a'u harwain gan heddluoedd; felly, ni fyddai'r Gwasanaethau Cyhoeddus yn gallu eu sbarduno'n uniongyrchol. Os codir digon o bryderon, gall fod yn briodol i wasanaethau gysylltu â'r heddlu a gofyn iddo ystyried Gorchymyn Amddiffyn Trais Domestig.

[31]Model Gweithredu WISDOM, fersiwn 6

9.21 Mae'r gorchmynion hyn yn galluogi'r heddlu ac ynadon i weithredu ar unwaith os bydd achos o gam-drin domestig. Gallant fod yn gymwys hyd yn oed pan nad oes digon o dystiolaeth i gyhuddo rhywun yn syth ac nad yw amodau mechnïaeth yn opsiwn. Dylai'r gorchmynion hyn fod yn opsiwn llawer mwy effeithlon na gwaharddeb cyfraith sifil.

9.22 Mae Gorchymyn Amddiffyn Trais Domestig yn atal cyflawnwr rhag dychwelyd i fan preswylio a chael unrhyw gysylltiad â'r dioddefwr am hyd at 28 diwrnod ar unwaith, gan roi amser i'r dioddefwr ystyried ei opsiynau a chael y cymorth angenrheidiol.

9.23 Y broses;

- Yn dilyn digwyddiad cam-drin domestig, gall yr heddlu gyflwyno Hysbysiad Amddiffyn Trais Domestig i'r troseddwr honedig. Bydd hyn yn gosod rhai amodau arno, fel ei atal rhag cael mynediad i gartref y dioddefwr a bod o fewn hyn a hyn o bellter iddo

- O fewn 48 awr bydd yr heddlu yn gwneud cais am Orchymyn Amddiffyn Trais Domestig drwy'r Llys Ynadon. Yn y llys, gwrandewir tystiolaeth a chaiff y cyflawnwr honedig gyfle i roi tystiolaeth. Ar sail y dystiolaeth hon bydd y Llys yn penderfynu p'un a ddylid cyflwyno Gorchymyn Amddiffyn Trais Domestig ai peidio. Os gwneir gorchymyn bydd yn para rhwng 14 a 28 diwrnod

- Gall ynadon wneud gorchymyn hyd yn oed os na fydd y sawl sydd wedi'i gam-drin yn cytuno. Hefyd, byddant yn ystyried lles unrhyw un o dan 18 oed os bydd yr heddlu o'r farn y bydd y gorchymyn yn effeithio arnynt

**Astudiaeth achos**

Mae Aled yn flin wrth ddod i'w grŵp cymorth cyflogaeth. Mae'n dweud wrth y grŵp iddo gael ffrae ofnadwy gyda'i bartner y noson cynt a bod twll yn y drws lle gwnaeth ei fwrw erbyn hyn. Mae'r gweithiwr cymorth yn cysylltu â swyddog trais domestig lleol yr heddlu i godi ei bryderon am ddiogelwch partner Aled

**Cynllun Datgelu Trais Domestig ('Cyfraith Clare')**

9.24 Daeth y Cynllun Datgelu Trais Domestig (y cyfeirir ati hefyd fel 'Cyfraith Clare') hefyd i rym yng Nghymru a Lloegr ym mis Mawrth 2014.

9.25 Mae'r cynllun hwn yn rhoi dull ffurfiol i aelodau'r cyhoedd holi am unigolyn y maent mewn perthynas â nhw, neu mewn perthynas â rhywun maent yn ei adnabod, pan fo pryder y gall yr unigolyn fod yn dreisgar tuag at bartner. Er mai canolbwyntio ar y dioddefwr a wna'r gwasanaeth hwn, os codir pryderon oherwydd cyswllt â chyflawnwr, gall y Cynllun Datgelu Trais Domestig fod yn gam priodol.

9.26 **Hawl i ofyn:** Gall aelodau'r cyhoedd wneud cais am ddatgeliad, y cyfeirir ato hefyd fel 'hawl i ofyn', drwy gysylltu â'r heddlu a gofyn am 'ddatgeliad cam-drin domestig'. Gall unrhyw un wneud datgeliad, ond yr unig rai a gaiff wybodaeth yw rhywun mewn perygl neu weithiwr proffesiynol sydd mewn sefyllfa i ddiogelu'r dioddefwr (a allai gynnwys rhannau o'r Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru). Mae'r cynllun ar gyfer unrhyw un sydd mewn perthynas agos ni waeth beth fo'i rywedd. Gall asiantaethau partner hefyd ofyn am ddatgelu hanes blaenorol troseddwr os credir bod rhywun mewn perygl o niwed.

9.27 **Hawl i wybod:** Os nodir bod unigolyn a allai fod yn dreisgar wedi'i gael yn euog o droseddau treisgar, neu fod gwybodaeth yn cael ei chadw am ei ymddygiad sy'n gwneud i'r heddlu ac asiantaethau eraill gredu'n rhesymol ei fod yn peri risg o niwed i'w bartner, bydd yr heddlu yn ystyried datgelu'r wybodaeth.Gellir gwneud datgeliad os yw'n gyfreithlon, yn gymesur ac yn angenrheidiol gwneud hynny.

**Astudiaeth achos**

Mewn cyfarfod â'i swyddog cyflogaeth, mae Michelle yn datgelu bod ganddi bartner newydd. Mae'r swyddog yn ymwybodol bod Michelle wedi'i chael yn euog o ymosodiad difrifol ar bartner yn y gorffennol, ond nid yw'n cael ei goruchwylio mwyach. Mae'r swyddog yn cysylltu â swyddog trais domestig lleol yr heddlu ac yn gofyn i'w phartner newydd gael gwybod am hanes Michelle ar sail 'hawl i ofyn' a 'hawl i wybod'

**Pwyntiau ymarfer**

- Dylech nodi pwy yn eich heddlu lleol y gellir cysylltu â nhw os bydd gennych bryderon am risg ddybryd
- Dylai fod gennych brotocolau rhannu gwybodaeth â darparwyr gwasanaeth Cyfiawnder Troseddol lleol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw oedi diangen pan fo angen codi pryderon
- Dylid briffio staff er mwyn eu hysbysu ynghylch pryd a sut i atgyfeirio achos at asiantaethau Cyfiawnder Troseddol lleol

## 9.c Rhaglenni Cyflawnwyr Statudol

9.28 Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yn cynnal rhaglenni penodol sy'n canolbwyntio ar gam-drin domestig i gyflawnwyr sydd wedi'u cael yn euog o droseddau perthnasol drwy Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol.

9.29 Y brif raglen a gynhelir gan wasanaethau prawf yng Nghymru yw Meithrin Cydberthnasau Gwell (BBR), sy'n rhaglen wedi'i hachredu gan CSAAP. Nod y rhaglen hon yw gostwng cyfraddau aildroseddu a hyrwyddo diogelwch partneriaid presennol a phartneriaid yn y dyfodol a phlant wrth gydweithio ag asiantaethau eraill i reoli risg.

9.30 Ar gyfer y troseddwyr hynny nad ydynt yn addas ar gyfer y rhaglen hon, cynhelir Cydberthnasau Parchus, sef Gofyniad Gweithgareddau Adsefydlu 10 sesiwn, gan staff prawf yng Nghymru. Tra bod Meithrin Cydberthnasau Gwell yn rhaglen achrededig (h.y. craffwyd arni'n sylweddol o ran y sail ddamcaniaethol a'r gwerthusiad), cafodd Cydberthnasau Parchus ei datblygu'n lleol ac mae'n gyfuniad o adnoddau sydd ar gael at ddefnydd staff prawf, yr aseswyd ei bod yn bodloni gofynion panel ymyriadau anachrededig Cymru.

## 9.d Gwasanaethau y mae'n bosib nad ydynt yn opsiynau atgyfeirio priodol.

### Gwaith gyda chyplau/cyfryngu

9.31 Gan fod cam-drin domestig yn aml yn cynnwys camddefnyddio pŵer a rheolaeth o un partner i'r llall, yn aml nid oes modd i'r ddau barti mewn perthynas gamdriniol gynrychioli eu hunain yn briodol mewn sesiynau ar y cyd. Gall gwaith gyda chyplau gynyddu'r risg a berir i ddioddefwr os byddai angen trafod y gamdriniaeth gyda'r cyflawnwr yn bresennol.

9.32 Er mwyn i unrhyw gwnsela fod yn llwyddiannus, mae angen i'r partïon sy'n cymryd rhan fod yn agored ac yn onest am eu sefyllfa. Mewn achosion cam-drin domestig ni fydd llawer o ddioddefwyr yn teimlo ei bod yn ddiogel iddynt ddatgelu'r gamdriniaeth am eu bod ofn dial. Gellir

datgelu achosion o gam-drin drwy waith gyda chyplau neu gyfryngu, ac os felly, rhaid ystyried yn ofalus p'un a yw'n briodol ac yn ddiogel i'r gwaith gyda chyplau barhau. Dylai gweithwyr proffesiynol geisio cymorth cymheiriaid a goruchwyliaeth wrth benderfynu sut i barhau.

**Cyfiawnder Adferol**

9.33 Er bod cyfiawnder adferol yn ddefnyddiol mewn perthynas â throseddau llai difrifol a thrais cyffredinol[32], nid argymhellir i'r heddlu[33] na'r llywodraeth[34] ei ddefnyddio mewn achosion VAWDASV. Gall cyfiawnder adferol ynddo'i hun fod yn dacteg camdriniol, gall wneud y dioddefwr yn fwy agored i niwed am ei fod yn dod i gysylltiad â'r cyflawnwr, gall fod yn drawmatig i'r dioddefwr ac, mewn achosion lle caiff ei ddefnyddio fel dewis amgen i benderfyniad ffurfiol, gall danseilio natur ddifrifol yr ymddygiad camdriniol[35]. Nododd Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth Llywodraeth Cymru dystiolaeth gyfyngedig yn ymwneud â'r defnydd o gyfiawnder adferol mewn achosion o gam-drin domestig ac argymhellodd y byddai angen mwy o dystiolaeth gadarn cyn y gellid cefnogi ei ddefnyddio yn y cyd-destun hwn.

**Rhaglenni Rhianta**

9.34 Er y gall fod angen i gyflawnwyr cam-drin domestig gael cymorth gyda'u sgiliau rhianta, ni ddylai cyrsiau o'r fath gael eu hystyried fel dewis amgen i Raglenni Cyflawnwyr Trais Domestig am nad ydynt yn mynd i'r afael â'r ymddygiad camdriniol ei hun na'r problemau gwaelodol sy'n achosi ymddygiad camdriniol.

---

[32] Sherman, L.W., Strang, H., Mayo-Wilson, E., Woods, D.J. ac Ariel, B. (2015). Are Restorative Justice Conferences Effective in Reducing Repeat Offending? Findings from a Campbell Systematic Review. *Journal of Quantitative Criminology, 31*(1), 1-24

[33] Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi. (2014). *Everyone's Business: Improving the Police response to Domestic Abuse.* ACEM, ar gael ar-lein yn https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmic/wp-content/uploads/2014/04/improving-the-police-response-to-domestic-abuse.pdf

[34] Travis, A. (2016). 'Police Treatment of Domestic Abuse victims to be Investigated'. *The Guardian*, 17 Mai 2016. Ar gael ar-lein yn http://www.theguardian.com/society/2016/may/17/police-treatment-of-domestic-abuse-victims-to-be-investigated

[35] Westmarland, N., Johnson, K. a McGLynn, C. (2018). Under the radar: The widespread use of 'out of court resolutions' in policing domestic violence in the United Kingdom. *British Journal of Criminology, 58*, 1-16. Doi:10.1093/bjc/azx004

**Nodyn ar ymyriadau Rheoli Dicter**

9.35 Dengys ymchwil y gall anawsterau sy'n ymwneud â rheoleiddio dicter a gelyniaeth gyfrannu at gam-drin domestig[36]. Credir bod rhagdueddiad i deimlo'n ddig yn gysylltiedig â mwy o duedd i ddefnyddio trais[37]. Gall ei chael hi'n anodd rheoli dicter fod yn brif achos cam-drin domestig mewn rhai unigolion. Fodd bynnag, i lawer mae'r hyn sydd wrth wraidd eu hymddygiad yn fwy cymhleth. I rai unigolion, nid yw rheoli dicter yn broblem o gwbl ac mae eu defnydd o drais yn cyfrannu i ddiben. Felly gall gwaith rheoli dicter helpu rhai unigolion i ddelio â'u hemosiynau'n fwy effeithiol, a all yn ei dro leihau ymddygiad camdriniol. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad yw rhaglenni rheoli dicter yn gyffredinol yn canolbwyntio i'r un graddau ar ddiogelwch dioddefwyr â Rhaglenni Cyflawnwyr Trais Domestig. Hefyd, os nad rheoli dicter sy'n bennaf cyfrifol am ysgogi ymddygiad camdriniol rhywun, nid yw ymyriad rheoli dicter yn debygol o fod yn ddigonol.

**Astudiaeth achos**

Mewn sesiwn cefnogi iechyd meddwl mae Craig yn datgelu ei fod wedi ymddwyn mewn ffordd gamdriniol yn ei berthynas a'i fod yn destun profiannaeth ar hyn o bryd. Mae ei weithiwr iechyd meddwl yn cysylltu â Rheolwr Troseddwyr Craig sy'n dweud wrthi fod Craig yn gwneud BBR ar hyn o bryd. Mae'r gweithiwr iechyd meddwl yn cael ei rhoi mewn cysylltiad â'r sawl sy'n hwyluso BBR a all roi peth cyngor iddi ar sut i ymgysylltu â Craig yn effeithiol.

[36] e.e. Norlander, B ac Eckhardt, C (2005) Anger, hostility, and male perpetrators of intimate partner violence: A Meta-analytic review. Clinical Psychology Review, 25, 119 – 152.

[37] Anderson, C.A., a Bushman, B.J. (2002). Human aggression. Annual Review of Psychology, 53, 27 – 51.

**Astudiaeth achos**

Mewn sesiwn gyda'i weithiwr camddefnyddio sylweddau mae Mohammed yn dweud ei fod yn cael problemau yn ei berthynas. Datgela ei fod wedi bod yn bwrw ei bartner a'u bod yn ystyried defnyddio gwasanaeth cwnsela i gyplau. Mae'r gweithiwr yn argymell bod Mohammed yn ymchwilio i Raglenni Cyflawnwyr Trais Domestig cyn gwneud hyn fel bod ei bartner yn teimlo'n ddiogel. Mae'r gweithiwr yn cysylltu â swyddog trais domestig lleol

**Pwyntiau ymarfer**

- Dylech weld a oes gennych raglen leol a chadarnhau bod protocolau atgyfeirio wedi'u sefydlu rhwng y rhaglen a'r sefydliad Gwasanaethau Cyhoeddus

- Dylech geisio cyngor gan asiantaethau statudol fel yr heddlu a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi. Efallai y bydd yr unigolyn yn hysbys i wasanaethau'n barod, yn destun trefniadau monitro a goruchwylio eisoes neu'n gymwys i gael ei atgyfeirio at wasanaethau o'r fath. Efallai y gall gwasanaethau sy'n gweithio gyda'r unigolyn roi arweiniad ar sut i gefnogi eu gwaith yn ogystal â rhoi cyngor ar reoli'r unigolyn o fewn eich cylch gwaith eich hun

- Dylech geisio cyngor gan Respect; cymdeithas yn y DU ar gyfer rhaglenni cyflawnwyr trais domestig a gwasanaethau cysylltiedig i fenywod a all gynnig cyngor arbenigol i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda chyflawnwyr - respect.uk.net

- Dylech osgoi mentrau nad ydynt yn seiliedig ar dystiolaeth neu nad ydynt yn ddiogel i ddioddefwyr cam-drin domestig. Dylech geisio cyngor gan eich gwasanaeth arbenigol lleol os nad ydych yn siŵr

**Pwynt strategol**

- Dylech ystyried ac asesu angen lleol mewn perthynas â darparu gwasanaethau i gyflawnwyr. Mae Rhaglenni Cyflawnwyr Trais Domestig yn talu ar eu canfed a gall cynnwys rhaglen o'r fath fel rhan o ddarparu gwasanaethau lleol ddiwallu angen gwasanaeth nas diwallwyd sy'n gost-effeithiol

## 10. Rôl y Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru mewn partneriaethau amlasiantaethol sy'n ymwneud â cham-drin domestig

10.1 Mae sawl fforwm amlasiantaethol yn bodoli mewn perthynas â cham-drin domestig. Er bod ffocws partneriaethau o'r fath yn amrywio, mae gan bob un rôl i'w chwarae wrth fynd i'r afael ag ymddygiad cyflawnwyr. Bydd chwarae rhan effeithiol mewn fforymau o'r fath yn bwysig er mwyn i'r Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru chwarae rhan lawn yn y gwaith o fynd i'r afael ag ymddygiad cyflawnwyr. Mae'r Gwasanaethau Cyhoeddus mewn sefyllfa ardderchog i ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol am y cyflawnwr ac o safbwynt y cyflawnwr, a all fod yn amhrisiadwy i waith cynllunio diogelwch.

### Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA)

10.2 Mae Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA) wedi'u cynllunio i amddiffyn y cyhoedd, gan gynnwys dioddefwyr troseddau blaenorol, rhag niwed difrifol gan droseddwyr rhywiol a threisgar. Maent yn gofyn i'r asiantaethau cyfiawnder troseddol lleol a chyrff eraill sy'n delio â throseddwyr gydweithio wrth ddelio â'r troseddwyr hyn.

10.3 Sefydlwyd MAPPA o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 ("Deddf 2003"). Nid yw MAPPA yn gorff statudol ynddo'i hun. Yn hytrach mae'n gyfrwng i asiantaethau gyflawni eu cyfrifoldebau statudol yn well ac amddiffyn y cyhoedd mewn modd cydgysylltiedig.

10.4 Mae MAPPA yn cynnwys sawl grŵp; yr Awdurdod Cyfrifol (fel y'i diffinnir yn Neddf 2003) yw prif gyfrwng MAPPA ac mae'n cynnwys gwasanaeth yr heddlu, y gwasanaeth carchardai a'r gwasanaeth prawf. Mae gan yr Awdurdod Cyfrifol ddyletswydd i sicrhau bod y risgiau a berir gan droseddwyr rhywiol a threisgar penodol yn cael eu hasesu a'u rheoli'n briodol.

10.5 Mae gan gyrff eraill "ddyletswydd i gydweithio" â'r Awdurdod Cyfrifol yn hyn o beth. Mae'n ofynnol i'r asiantaethau "dyletswydd i gydweithio" hyn weithio gyda'r Awdurdod Cyfrifol ar agweddau penodol ar fywyd troseddwr (e.e. addysg, cyflogaeth, tai, gofal cymdeithasol).

10.6 Rheolir troseddwyr MAPPA ar un o dair lefel yn unol â lefel cyfranogiad yr asiantaeth a nifer o asiantaethau gwahanol dan sylw. Caiff y mwyafrif helaeth eu rheoli ar lefel 1 (rheolaeth arferol gan asiantaeth). Mae hyn yn gofyn am rannu gwybodaeth ond nid yw'n gofyn am gyfarfodydd amlasiantaethol. Rheolir y gweddill ar lefel 2 os oes angen cymryd camau amlasiantaethol (cyfarfodydd MAPPA), ac ar lefel 3 os oes hefyd angen uwch-gynrychiolwyr o'r asiantaethau perthnasol sydd â'r awdurdod i ymrwymo adnoddau. Unwaith y bydd troseddwyr wedi'u nodi'n droseddwyr MAPPA, asesir y risg maent yn ei pheri. Mae'r risg hon hefyd yn cynnwys y risg o gael eich barnu'n euog eto, y risg o aildroseddu, neu'r risg o niwed difrifol.

10.7 Ar ôl asesu risg pob troseddwr, bydd asiantaethau MAPPA yn paratoi Cynllun Rheoli Risg manwl a chadarn. Bydd y mwyafrif helaeth o droseddwyr MAPPA yn cael eu rheoli drwy reolaeth gyffredin un asiantaeth, er y bydd hyn fel arfer yn golygu rhannu gwybodaeth ag asiantaethau perthnasol eraill. Sail strwythurol y gwaith o drafod

troseddwyr MAPPA sydd angen cael eu rheoli ar lefel ryngasiantaethol weithredol, gan gynnwys prosesau asesu risg a rheoli risg, yw'r cyfarfod MAPPA. Gwahoddir asiantaethau sydd â dyletswydd i gydweithredu i gyfarfod ar gyfer unrhyw droseddwr lle gallant ddarparu cymorth a rheolaeth ychwanegol ar ei gyfer. Bydd amlder cyfarfodydd yn dibynnu ar lefel y rheolaeth a dybir yn briodol ar gyfer pob troseddwr.

10.8 Y Bwrdd Rheoli Strategol ym mhob ardal sy'n gyfrifol am oruchwylio gwaith y MAPPA. Mae ganddo amrywiaeth o swyddogaethau sy'n gysylltiedig â llywodraethu, gan gynnwys monitro perfformiad, sicrhau arferion nad ydynt yn gwahaniaethu, mesur cydymffurfiaeth â Dangosyddion Perfformiad Allweddol MAPPA, a llunio adroddiad blynyddol MAPPA.

10.9 Mae Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 hefyd yn darparu ar gyfer safbwynt annibynnol ar waith y grwpiau hyn drwy gynghorwyr lleyg, sy'n aelodau o'r cyhoedd. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol ddyletswydd statudol i benodi dau gynghorydd lleyg ar gyfer pob ardal Awdurdod Cyfrifol.

10.10 Dylai'r heddlu, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a, lle bo'n briodol, gynrychiolydd o Wasanaeth Carchardai EM fynychu cyfarfodydd MAPPA. Os mai person ifanc yw'r troseddwr, rhaid i gynrychiolydd o'r Tîm Troseddwyr Ifanc a Gwasanaethau Plant fod yn bresennol. Os mai asiantaeth arall sy'n gyfrifol am yr atgyfeiriad, rhaid i'r rheolwr achos o'r asiantaeth honno fod yn bresennol gydag unrhyw gydweithwyr eraill sydd angen help i asesu risg y troseddwr a'i reoli. Ni chaiff troseddwyr na'u cynrychiolwyr fynychu cyfarfodydd MAPPA. Bydd y Gwasanaethau Cyhoeddus yn gallu bwydo gwybodaeth i mewn i gyfarfodydd MAPPA, ac o bosibl fynychu lle bo'n briodol.

**Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC)**

10.11 Cyfarfodydd lleol amlasiantaethol rheolaidd yw Cynadleddau Asesu Risg Amlasiantaeth sy'n trafod dioddefwyr sy'n wynebu risg uchel o lofruddiaeth neu niwed difrifol o ganlyniad i gam-drin domestig.

10.12 Nid yw'r rhain yn statudol ond mae o leiaf un ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Fel rheol bydd arbenigwyr cam-drin domestig, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, gwasanaethau cymdeithasol plant, asiantaethau iechyd ac asiantaethau perthnasol eraill yn mynychu'r cyfarfod sy'n rhannu gwybodaeth berthnasol a gedwir gan eu sefydliad gan ei defnyddio i ddeall y risgiau a berir i ddioddefwyr a'u plant. Gyda'i gilydd, bydd y sawl sy'n mynychu MARAC yn datblygu cynllun gweithredu ar gyfer pob dioddefwr, sydd wedi'i gynllunio i gynnig cymorth priodol iddynt a lliniaru'r risgiau dan sylw.

10.13 Prif ffocws y MARAC yw diogelwch y dioddefwr sy'n oedolyn a phlant; fodd bynnag, cydnabyddir yn gyffredin mai dim ond os ymdrinnir ag ymddygiad y cyflawnwr honedig yn effeithiol y gellir sicrhau'r fath ddiogelwch. Felly, mae'n hanfodol fod y MARAC yn ystyried gwybodaeth am y cyflawnwr honedig, a chytuno ar gamau gweithredu o fewn y cynllun diogelwch sy'n ymdrin yn uniongyrchol â'r ymddygiad camdriniol. Mae'r Gwasanaethau Cyhoeddus mewn sefyllfa ardderchog i hysbysu cyfarfodydd MARAC yn y ffordd hon.

**Canolfan Diogelu Amlasiantaethol (MASH)**

10.14 Mabwysiadwyd dull gweithredu MASH mewn rhai rhannau o Gymru er mwyn cefnogi'r gwaith o rannu gwybodaeth wrth ddiogelu plant a phobl agored i niwed. Y prif ddiben yw gwella gwybodaeth a hwyluso ymateb diogelu effeithiol ac amserol drwy wneud penderfyniadau ar y cyd.

10.15 Nod MASH yw darparu dull integredig o weithredu lle mae nifer o asiantaethau yn cydweithio mewn un man, gan rannu gwybodaeth a gwneud penderfyniadau diogelu ar y cyd. Mae model MASH yn

amrywio'n lleol ond mewn sawl achos bydd cam-drin domestig yn rhan o'r llwyth achosion.

10.16 Bydd tîm MASH (a all gynnwys y gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu, Rheolwyr Troseddwyr, Tai ac Addysg) yn derbyn atgyfeiriadau diogelu. Ar ôl cael y rhain, bydd pob asiantaeth yn casglu ac yn rhannu gwybodaeth berthnasol er mwyn asesu risg, gwneud penderfyniadau a dyrannu i'r asiantaeth fwyaf addas.

**Astudiaeth achos**

Adam yw swyddog tai Sue. Drwy ei gyswllt â Sue mae'n gwybod nad oes ganddi gartref parhaol ar hyn o bryd am ei bod wedi gwahanu oddi wrth ei phartner. Mae Adam hefyd yn ymwybodol bod Sue wedi'i chael yn euog o drais domestig yn y gorffennol a'i bod o dan MAPPA. Mae'n siarad â'r cydgysylltydd MAPPA lleol ac yn mynychu'r cyfarfod nesaf am Sue fel y gall roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt

**Pwyntiau ymarfer**

- Sicrhewch fod eich sefydliad wedi'i gynrychioli'n briodol ym mhob fforwm amlasiantaethol perthnasol. Mae'r fforymau hyn ond yn gweithio pan fydd pob asiantaeth berthnasol wedi'i chynrychioli ac y gall gynnig ffyrdd arloesol a chreadigol (ond sy'n dal i fod yn ddiogel, yn effeithiol ac yn seiliedig ar dystiolaeth) o gynllunio camau gweithredu ar gyfer teuluoedd mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt. Gall fod yn ddefnyddiol cael aelod dynodedig o staff a dirprwy i fynychu'r cyfarfodydd hyn er mwyn sicrhau cysondeb

- Dylai Rhaglenni Cyflawnwyr Trais Domestig lleol a'r rhai sy'n gweithio gyda chyflawnwyr gael eu cynrychioli'n briodol o fewn fforymau amlasiantaethol. Pan na fyddant yn bresennol, mae'r diffyg gwybodaeth gan y cyflawnwr ac amdano, yn aml yn sylweddol; gallai gwybodaeth am y risg gynyddol gael ei methu a gallai cynlluniau diogelu gael eu peryglu

- Bydd unrhyw un sydd wedi cael dedfryd amhenodol yn destun trwydded hir, a all gael ei hail-actifadu os bydd ei ymddygiad yn gwaethygu. Gall codi pryderon gyda'r gwasanaeth cyfiawnder troseddol priodol eu helpu i sicrhau bod ganddynt y dystiolaeth sydd ei hangen i ailgyflwyno gweithdrefnau cymorth a monitro

**Pwynt strategol**

- Dylai arweinwyr sicrhau bod eu gweithlu yn ymwybodol o'r rôl y gall ei chwarae mewn gwasanaethau statudol. Dylai fod neges glir mae'r asiantaeth yn ei chydgysylltu â gwasanaethau statudol a bod gwneud hynny yn achub bywydau

## 11. Rôl Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru mewn perthynas â nodi risgiau, eu hasesu a'u lliniaru

11.1 Mae ymchwil wedi nodi ffactorau risg sy'n gysylltiedig â mwy o risg o niwed i ddioddefwyr VAWDASV. Mae nodi ac asesu risg yn weithgaredd cyffredin sy'n gysylltiedig â gweithio gyda dioddefwyr ac mae'n aml yn golygu gweithio gyda dioddefwyr er mwyn deall y risg a berir iddynt gan y person sy'n eu cam-drin. Gan fod gorgyffwrdd rhwng ffactorau risg cam-drin domestig a thrais rhywiol, ystyrir y ddau yn yr adran hon.

11.2 Yn amlwg, o ystyried mai cyflawnwyr sy'n peri'r risg, mae'n bwysig bod gwaith yn cael ei wneud i ddeall dynameg eu hymddygiad er mwyn lliniaru neu ddileu'r risg hon. Mae asesu risg o'r fath yn waith arbenigol a dylai gael ei wneud naill ai gan asiantaethau cymorth arbenigol, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yng Nghymru neu mewn partneriaeth ag unrhyw un o'r asiantaethau hyn. Yn y rhan fwyaf o achosion mae'r sefydliadau hyn yn defnyddio adnoddau arbenigol i hwyluso'r gwaith hwn.

11.3 Dylai hyfforddiant arbenigol gael ei gwblhau cyn asesu'r risg a berir gan gyflawnwyr VAWDASV neu gyflwyno ymyriadau i fynd i'r afael â'u hymddygiad. Dylai ymarferwyr nad oes ganddynt y sgiliau hyn ganolbwyntio eu hymyriadau ar ddiogelwch dioddefwyr sy'n oedolion a phlant, ceisio cyngor gan wasanaethau arbenigol, cydweithwyr neu Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yng Nghymru a chyfeirio cyflawnwyr at wasanaethau arbenigol lle bo modd.

11.4 Serch hynny, mae'n bwysig i bob sefydliad sy'n gweithio gyda theuluoedd y mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn effeithio arnynt, er mwyn sicrhau na fydd unrhyw waith maent yn ei wneud gyda'r rhai sy'n defnyddio trais a chamdriniaeth yn erbyn eu partneriaid neu aelodau o'r teulu yn cynyddu'r risg o gam-drin dioddefwyr neu eu plant ymhellach. **Rhaid mai diogelwch dioddefwyr**

**cam-drin domestig a thrais rhywiol sydd bwysicaf i bob sefydliad bob amser.**

11.5 Er mwyn sicrhau y canolbwyntir ar ddiogelwch dioddefwyr, mae'n bwysig bod gan y Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru ddealltwriaeth sylfaenol o'r risg sy'n gysylltiedig ag ymddygiad cyflawnwyr a'u bod yn gallu ei defnyddio yn eu gwaith er mwyn gwella diogelwch dioddefwyr cam-drin domestig a thrais rhywiol. Bydd codi ymwybyddiaeth o ddangosyddion risg gynyddol yn galluogi'r Gwasanaethau Cyhoeddus i hysbysu asiantaethau statudol a diogelu pan welant ymddygiad sy'n peri pryder, a thrwy hynny, wella diogelwch dioddefwyr.

11.6 Ni fwriedir i'r rhestr ganlynol gael ei defnyddio fel rhestr wirio nodi neu asesu risg gyda chyflawnwyr am nad yw eto'n bosibl darparu adnodd o'r fath oherwydd natur gymhleth y broblem a'r angen am fewnbwn arbenigol wrth asesu risg. Fodd bynnag, mae'r ffactorau canlynol wedi'u cysylltu â risg gynyddol o niwed i ddioddefwyr sy'n oedolion, plant a phartïon agored i niwed eraill, cam-drin mynych, cam-drin ailadroddus a cham-drin risg uchel. Gall presenoldeb y rhain hefyd roi staff sefydliadau mewn perygl.[38]

| | |
|---|---|
| Mae hanes o **ddioddefwyr blaenorol** yn awgrymu y gall ffactorau risg unigolyn fod wedi'u hymwreiddio'n eithaf sylweddol | Mae **meddwl am hunanladdiad neu ei fygwth** yn gysylltiedig â defnyddio trais angheuol oherwydd gall yr unigolyn deimlo nad oes ganddo ddim i'w golli |
| Mae ymddygiad camdriniol **gwaethygol** yn gysylltiedig â mwy o risg o niwed difrifol oherwydd amlder, amrywiaeth neu ddifrifoldeb cynyddol ymddygiadau camdriniol | Mae **meddwl mewn ffordd wyrdroëdig am gam-drin domestig** yn cynnwys gwadu a lleihau'r cam-drin a meddu ar agweddau sy'n cefnogi ymddygiad camdriniol a chenfigen |

[38]Addaswyd o ganllawiau MARAC ar ymdrin ag ymddygiad cyflawnwyr honedig.
http://www.safelives.org.uk/sites/default/files/resources/Perpetrator%20guidance%20for%20MARACs%20FINAL.pdf

| | |
|---|---|
| | rhywiol |
| Mae **hanes o drawma** yn gysylltiedig â risg o VAWDASV oherwydd gall amharu ar ddatblygiad emosiynol cyflawnwr. Gall camdriniaeth ddigwydd yng nghyd-destun PTSD a gall cyflawnwyr fod ofn erledigaeth bellach a defnyddio trais i amddiffyn eu hunain | Gall **anawsterau ariannol neu anawsterau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth** beri rhwystredigaeth lle mai'r dioddefwr sy'n ei chael hi. Mae diweithdra hefyd yn cynyddu faint o amser mae cyflawnwr gyda dioddefwr ac felly ei gyfleoedd i gam-drin |
| Mae **camddefnyddio sylweddau**, yn enwedig alcohol, yn gysylltiedig â mwy o risg o gam-drin domestig. Gall sylweddau ddiluddiannu VAWDASV, gan arwain at ffrwydrad neu golli pob rheolaeth o bosibl | Gall **salwch meddwl difrifol**, yn enwedig iselder a gorbryder, olygu bod pobl yn fwy tebygol o wneud penderfyniadau afresymol a byrbwyll i ddefnyddio trais |
| Gall **ymddygiad gwrthgymdeithasol** ddangos bod diffyg ffiniau priodol o ran ymddygiad a thueddiad i ymateb yn fyrbwyll ac mewn ffordd ymosodgar | Mae **anhwylder personoliaeth**, yn enwedig gwrthgymdeithasol, ffiniol a narsisaidd, yn gysylltiedig â mwy o risg o gam-drin domestig |
| Gall **ymddwyn mewn ffordd fyrbwyll** olygu na chaiff canlyniadau ymddygiad camdriniol eu hystyried a bod ymddygiad byrbwyll/peryglus yn arwain at sefyllfaoedd lle mae camdriniaeth yn fwy tebygol | Gall **meddyliau gwyrdroëdig am drais rhywiol** gynnwys credu bod gan ddynion hawl i ryw, na ellir ymddiried mewn menywod ac nad yw cael rhyw gyda phlant yn niweidiol |
| Gall **digartrefedd** gynyddu'r risg oherwydd efallai na fydd gan y cyflawnwr unrhyw le arall i fynd heblaw cartref y dioddefwr. Mae hefyd yn creu mwy o ansefydlogrwydd ac yn cynyddu'r camddefnydd o sylweddau | Gall **stelcio neu aflonyddu** ddynodi obsesiwn parhaus â'r dioddefwr ac mae hefyd yn gysylltiedig â thrais mwy difrifol lle bu trais o fewn y berthynas yn flaenorol |
| Gall **problemau o ran bod mewn perthynas agos** arwain at VAWDASV lle defnyddir camdriniaeth i gynnal neu reoli'r berthynas, neu defnyddir trais | Gall **diddordeb rhywiol** gael ei nodweddu gan lawer o ryw y tu allan i berthynas, lefelau uchel o fastyrbio, gwneud sefyllfaoedd nad ydynt yn |

| | |
|---|---|
| rhywiol mewn ymgais i fod yn fwy agos | rhywiol yn rhywiol neu feddwl llawer am ryw |
| Bydd rhywun yn **ei chael hi'n anodd rheoli emosiynau eithafol** pan na all reoli ei ysfa, er enghraifft gwylltio'n gacwn neu ysfa gref i ddinoethi | Gall **methiant i ddatrys problemau'n dda** arwain at ddefnyddio cam-drin domestig neu drais rhywiol i ddatrys problem neu weld problemau sydd heb eu datrys yn pentyrru gan arwain at golli tymer mewn ffordd gamdriniol |
| Mae **diddordeb rhywiol mewn troseddu** yn cynnwys cael eich cyffroi gan y defnydd o drais, cael rhyw gyda phlant, voyeuriaeth a dinoethi | Mae ymwneud **MAPPA/MARAC/WISDOM** ag achos yn dynodi bod y cyflawnwr wedi'i nodi'n rhywun sy'n peri risg uwch |

**Risg i'w hunain**

11.7 Dylai'r rhai sy'n gweithio yn y Gwasanaethau Cyhoeddus fod yn ymwybodol o'r risg bosibl mae cyflawnwr yn ei pheri i'w hunain. Gall cyflawnwyr fod yn ei chael hi'n anodd delio â'u profiadau trawmatig eu hunain. Efallai fod ganddynt broblemau iechyd meddwl sy'n anodd iddynt eu rheoli. Gall eu hymddygiad camdriniol wneud iddynt deimlo cywilydd neu gallant gredu eu bod wedi difetha eu bywydau oherwydd eu hymddygiad neu am fod eraill wedi dod i wybod amdano. Gallant fod mewn trallod oherwydd effaith eu hymddygiad ar eu mynediad i'w plant. Mae risg i'w hunain yn bryder mawr i gyflawnwyr cam-drin domestig a dylid ei gymryd o ddifrif. Yn ogystal â'r pryder am y risg i'r cyflawnwr ei hun, mae teimlo'n hunanladdol yn risg sylweddol o ran defnyddio trais angheuol mewn sefyllfa ddomestig ac mae'n gysylltiedig â throseddau difodi teulu.

11.8 Os bydd gweithwyr proffesiynol yn poeni y gall cyflawnwyr beri risg i'w hunain, dylent sicrhau eu bod yn rhannu'r wybodaeth hon ag eraill sydd ynghlwm â gofal yr unigolyn yn ogystal ag asiantaethau diogelu perthnasol.

**Astudiaeth achos**

Mae swyddog tai Jerome yn dod yn ymwybodol na fydd ganddo gartref parhaol cyn bo hir. Mae'r swyddog yn gwybod bod Jerome yn cael ei fonitro gan broses MAPPA, felly mae'n siarad â'r cyswllt lleol i rannu'r wybodaeth

**Astudiaeth achos**

Mae plant Llinos yn destun mesurau amddiffyn plant am ei bod wedi ymddwyn yn dreisgar tuag at ei chynbartner. Mae gweithiwr camddefnyddio sylweddau Llinos yn ymwybodol bod hyn wedi gwaethygu. Mae'r gweithiwr yn hysbysu'r tîm amddiffyn plant er mwyn gadael iddo wybod y gallai'r risg mae Llinos yn ei pheri fod wedi cynyddu

**Astudiaeth achos**

Roedd Amar i'w weld yn isel iawn ei ysbryd yn ei adolygiad ceisio gwaith diweddar gyda Steven. Siaradodd am y ffaith nad oedd yn gweld pwynt ceisio cael gwaith mwyach am nad oedd unrhyw beth fyth yn mynd i weithio allan iddo. Dywedodd fod ei fywyd yn llanast ac na allai weld ffordd allan. Casglodd Steven fwy o wybodaeth am ba mor hir roedd Amar wedi bod yn teimlo fel hyn ac a oedd yn bwriadu niweidio ei hun neu eraill. Er i Amar ddweud nad oedd, anogodd Steven ef i siarad â'i rwydwaith cymorth, yn enwedig ei Reolwr Troseddwyr a'i feddyg teulu am y ffordd roedd yn teimlo. Ar ôl y cyfarfod, cysylltodd Steven â Rheolwr Troseddwyr Amar er mwyn ei hysbysu y gallai ei risg fod wedi cynyddu.

### 11.a Adnodd Adnabod Cyflawnwyr â Blaenoriaeth[39]

11.9 Yn 2013 comisiynodd partneriaeth Rheoli Troseddwyr Integredig Cymru ymchwil i'r ffordd mae 'cam-drin domestig mynych' yn cael ei ddeall, ei ddiffinio a'i gofnodi gan heddluoedd, darparwyr gwasanaethau prawf a phartneriaid trydydd sector ledled Cymru. Arweiniodd hyn at ddatblygu'r Adnodd Adnabod Cyflawnwyr â Blaenoriaeth, gan ymgorffori troseddu mynych, ailadroddus a risg uchel mewn un adnodd â mewnbwn a chytundeb asiantaethau perthnasol (e.e., yr heddlu, Cyfiawnder Troseddol a'r Trydydd Sector).

11.10 Bwriadwyd i'r adnodd hwn ategu a defnyddio adnoddau eraill (e.e., yr asesiad Cam-drin Domestig, Stelcio a Thrais ar sail Anrhydedd i ddioddefwyr – DASH, y System Asesu Troseddwyr – OASys a'r Asesiad Risg ar gyfer Cam-drin Gŵr neu Wraig[40] ar gyfer Cyflawnwyr – SARA) fel bod modd i asiantaethau nodi mewn ffordd ddibynadwy yr unigolion hynny lle mae angen gweithredu fel mater o flaenoriaeth ynghylch eu hymddygiad troseddol. Bwriadwyd i'r adnodd gael ei ddefnyddio i sbarduno ymyrraeth, yn hytrach na bod yn ymyrraeth ynddo'i hun.[41]

11.11 Yn 2016, cwblhawyd adolygiad o'r adnodd[42], gan edrych ar y ffordd y'i defnyddiwyd gan ymarferwyr a'u barn amdano. Nododd yr astudiaeth fod gwahaniaeth mawr rhwng y rhai a nodwyd yn flaenoriaeth a'r rhai nad ystyriwyd eu bod yn flaenoriaeth. Fodd bynnag, cododd defnyddwyr bryderon fod yr adnodd fel petai'n ailadrodd gwaith presennol (e.e. DASH a SARA) ac nid oeddent yn glir ynghylch ei ddiben. Nododd cyhoeddiad yn 2017 fod yr adnodd yn ffordd

---

[39] Robinson, A. L. a Clancy, A. (2015). *Development of the Priority Perpetrator Identification Tool (PPIT) for Domestic Abuse*. Caerdydd: Prifysgol Caerdydd. Ar gael yn: http://www.cardiff.ac.uk/people/view/38078-robinson-amanda
[40] Kropp, P. R., a Hart, S. D. (2015). SARA-V3 User Manual for Version 3 of the Spousal Assault Risk Assessment Guide. ProActive ReSolutions Inc: U.S.
[41] Robinson, A. L. a Clancy, A. (2015). *Development of the Priority Perpetrator Identification Tool (PPIT) for Domestic Abuse*. Caerdydd: Prifysgol Caerdydd. Ar gael yn: http://www.cardiff.ac.uk/people/view/38078-robinson-amanda
[42] Robinson, A. a Clancy, A. (2016). *All-Wales Implementation Testing of the Priority Perpetrator Identification Tool (PPIT) for Domestic Abuse*. Caerdydd: Prifysgol Caerdydd. Ar gael yn http://www.cardiff.ac.uk/people/view/38078-robinson-amanda

ddefnyddiol o roi mwy o sylw i achosion cam-drin domestig (am fod pob achos mewn ardal yn cael ei asesu), ac o ran cyfeirio adnoddau at yr achosion hynny a ystyriwyd yn flaenoriaeth. Oherwydd cam y peilot presennol, nid yw wedi bod yn bosibl eto asesu effaith yr adnodd ar lefelau atgwympo na ph'un a yw'n gwella diogelwch dioddefwyr a phlant[43].

**Pwyntiau ymarfer**

- Dylech fonitro a chasglu'r wybodaeth ganlynol (lle mae ar gael) yn eich ffeiliau achos eich hun a rhannu'r wybodaeth ag asiantaethau perthnasol os yw'n briodol ac yn gyfreithlon:
  - Manylion personol cywir a chyfredol, gan gynnwys unrhyw enwau eraill a ddefnyddir
  - P'un a yw'r unigolyn wedi cam-drin yn y gorffennol
  - Unrhyw bryderon amddiffyn plant
  - Pob perthynas agos ac unrhyw blant mae mewn cysylltiad â nhw
  - Ymddygiad troseddol, marcwyr yr heddlu a gwybodaeth sy'n berthnasol i gam-drin domestig yn cynnwys arson, bygythiadau i ladd, trais rhywiol, rheolaeth eithafol, neu stelcio
  - Unrhyw waith cyflogedig, diddordebau neu weithgareddau sy'n cynnwys gallu corfforol, arfau, neu fynediad i sgiliau ditectif neu TG arbenigol
  - Unrhyw gerbydau, eiddo a systemau TG y gall y cyflawnwr gael gafael arnynt

[43] Robinson, A a Clancy, A. (2017). *New initiatives to tackle domestic violence using the Priority Perpetrator Identification Tool (PPIT).* Caerdydd: Prifysgol Caerdydd. http://orca.cf.ac.uk/107138/1/Robinson%20%26%20Clancy%20%282017%29%20New%20PPIT%20Initiatives%20for%20Tackling%20Domestic%20Abuse.pdf

- Camddefnyddio cyffuriau neu alcohol a/neu broblemau salwch meddwl
- Unrhyw risgiau hysbys i weithwyr proffesiynol fel ymddygiad ymosodgar neu baraffernalia cyffuriau yn y cartref
- Materion iechyd neu lesiant sy'n effeithio ar ei debygolrwydd o gyflawni trais a cham-drin ymhellach
- Gwybodaeth berthnasol arall, e.e. anawsterau ariannol, cam-drin anifail anwes, arferion diwylliannol, unrhyw hanes o roi pethau ar dân

- Sicrhau bod staff yn ymwybodol o ddangosyddion risg uwch ar gyfer VAWDASV a sut y gallant roi'r wybodaeth hon i asiantaethau statudol a diogelu

**Pwynt strategol**

- Dylai asiantaethau sicrhau bod ganddynt bolisi i reoli defnyddwyr gwasanaeth sy'n peri risg iddyn nhw eu hunain.

## 12. Ystyriaethau mewnol ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus

12.1 Mae natur eang cam-drin domestig yn golygu y bydd, ym mhob gweithle, aelodau o staff y mae cam-drin domestig wedi effeithio arnynt, naill ai fel dioddefwr, cyflawnwr neu dyst. Hefyd, gall gweithleoedd fod yn lleoliad risg uchel i ddioddefwyr cam-drin domestig oherwydd bydd y cyflawnwr yn gwybod ble maent ac mae'n aml yn gyfarwydd â chydweithwyr y dioddefwr[44]. Felly rhaid i weithleoedd yn y sector cyhoeddus gymryd cyfrifoldeb am ddiogelu eu staff a chefnogi cyflogeion a all fod yn poeni am eu hymddygiad eu hunain.

### 12.a Diwylliant y gweithle

12.2 Dywed dioddefwyr eu bod yn ei chael hi'n anodd iawn bod yn agored am eu profiadau o gam-drin neu rannu pryderon am eu diogelwch. Er bod amrywiol ffactorau yn gyfrifol am hyn, un agwedd sy'n cyfrannu ato yw diwylliant eu cylchoedd cymdeithasol a chyflogaeth. Mae agweddau diwylliannol yn aml yn cefnogi cam-drin mewn ffordd ymhlyg, er enghraifft, drwy gefnogi rolau traddodiadol, normaleiddio cenfigen neu atgyfnerthu'r syniad bod yr hyn sy'n digwydd 'y tu ôl i ddrysau caeedig' yn breifat. Hefyd, lle bydd cyflawnwr yn adnabod cydweithwyr y dioddefwr, gall y dioddefwr fod ofn dial am siarad neu na fydd neb yn ei gredu.

12.3 Gall cyflawnwyr geisio cefnogaeth eu cydweithwyr drwy leihau eu hymddygiad camdriniol, annog eraill i weld y dioddefwr fel rhywun afresymol, neu geisio eraill sy'n cefnogi eu hagweddau sydd o blaid cam-drin.

12.4 Dylai'r Gwasanaethau Cyhoeddus sicrhau eu bod yn datblygu diwylliant gweithle sy'n meithrin dealltwriaeth o beth yw perthynas iach, sy'n herio agweddau amhriodol tuag at fod mewn perthynas, menywod a chamdriniaeth, a lle gall dioddefwyr a chyflawnwyr deimlo y gallant fod

[44] e.e. Kropp, P. R., Hart, S. D., a Lyon, D. (2008). *Guidelines for Stalking Assessment and Management* (SAM). Vancouver, British Columbia: ProActive ReSolutions, Inc.

yn agored am eu pryderon. Gellir cyflawni hyn drwy addysg, hyfforddiant a rhoi gwybodaeth, a pholisi ar gyfer y gweithle.

12.5 Mae'n bwysig bod staff sy'n pryderu am eu hymddygiad eu hunain yn cael cymorth. Anogir y Gwasanaethau Cyhoeddus i gefnogi cydweithwyr sy'n gwneud datgeliadau o'r fath drwy fabwysiadu dull gweithredu nad yw'n barnu neb, gan ganiatáu amser i fynychu apwyntiadau a gynlluniwyd i ymdrin â'r broblem (e.e. apwyntiadau meddygol neu raglenni cyflawnwyr trais domestig) a sicrhau nad yw'r unigolyn yn cael ei farnu gan eraill o fewn y sefydliad. Mae cyfrinachedd yn hanfodol er mwyn sicrhau bod unigolion yn teimlo'n ddiogel i wneud datgeliadau a defnyddio'r cymorth sydd ar gael.

**12.b Addysg, hyfforddiant a rhoi gwybodaeth**

12.6 Darperir hyfforddiant Gofyn a Gweithredu fel rhan o'r fframwaith hyfforddiant cenedlaethol fesul cam i awdurdodau perthnasol (gyda ffocws ar staff sy'n delio â'r cyhoedd) er mwyn eu helpu i adnabod arwyddion cam-drin domestig a siarad â dioddefwyr am eu pryderon. Lle bo modd, dylai'r wybodaeth hon gael ei rhannu â staff eraill. Ychydig iawn o ffocws sydd ar gyflawnwyr yn yr hyfforddiant hwn, ac felly mae'n debygol y bydd angen gwybodaeth atodol, fel yr hyn a roddir yn y canllawiau hyn.

12.7 Dylid rhoi gwybodaeth am y gwahanol fathau o gamdriniaeth sy'n bodoli i bob aelod o staff er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n ymddygiad iach a'r hyn nad yw'n ymddygiad iach mewn perthynas.

12.8 Dylai pob aelod o staff sy'n delio â'r cyhoedd a rheolwyr llinell sicrhau eu bod yn ymwybodol o ddangosyddion risg gynyddol o ran trais domestig, oherwydd gall camdriniaeth waethygu'n gyflym a rhoi bywyd yn y fantol.

12.9 Dylid cyfeirio staff at adnoddau profiadau andwyol yn ystod plentyndod er mwyn codi ymwybyddiaeth o effaith y profiadau hynny, a

phwysigrwydd torri'r cylch. Mae'r fideo byr canlynol yn gyflwyniad gwych i'r pwnc: http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/91667/

12.10 Dylai pob aelod o staff gael gwybodaeth am sut i godi pryderon am gleientiaid, cydweithwyr a nhw eu hunain.

12.11 Dylai gwybodaeth fod ar gael yn hawdd gan ddarparu manylion am wasanaethau cymorth i ddioddefwyr a chyflawnwyr sy'n poeni am eu hymddygiad eu hunain. Dylai'r wybodaeth hon fod ar gael mewn ardaloedd cymunedol fel ystafelloedd staff, ynghyd â gwybodaeth eraill i gynorthwyo staff fel bod modd ei chael yn hawdd, ond nid mewn ffordd amlwg.

**12.c Polisi**

12.12 Dylai fod gan bob cyflogwr yn y Gwasanaethau Cyhoeddus bolisi VAWDASV ar gyfer y gweithle a dylai ystyried polisi penodol sy'n ymwneud â cham-drin domestig. Dylai polisïau ddarparu canllawiau i reolwyr linell a chydweithwyr ar yr hyn i'w wneud pan fo pryderon am gam-drin domestig wedi'u codi, yn ogystal â disgwyliadau swyddogol am ymddygiad camdriniol.

12.13 Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn rhoi arweiniad i gyflogwyr ar sut i gefnogi staff a datblygu polisi[45]. Gall polisi gweithle Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi ar gam-drin domestig[46] fod yn enghraifft ddefnyddiol o arfer da.

[45] https://www.equalityhumanrights.com/ên/advice-and-guidance/domestic-abuse-workplace-policies-and-managing-and-supporting-employees
[46] https://intranet.justice.gov.uk/documents/2015/04/domestic-violence-policy-guidance.pdf

**Astudiaeth achos**

Mae Geraint wedi cael ei arestio'n ddiweddar am gam-drin ei wraig. Mae wedi dweud wrth ei reolwr llinell ac mae'n teimlo cywilydd mawr. Mae'n awyddus i gael help. Mae rheolwr Geraint yn diolch iddo am fod yn agored am yr hyn a ddigwyddodd ac mae'n tanlinellu'r ffaith ei bod hi'n gadarnhaol ei fod am gael help. Mae hefyd yn dweud wrtho y gall euogfarn effeithio ar ei swydd, ond bod hynny'n rhywbeth i'w ystyried yn nes ymlaen. Mae'n darparu manylion cyswllt gwasanaethau cymorth staff ac mae'n sôn am asiantaethau cymorth a all ei helpu. Diweddarir ffeil adnoddau dynol Geraint gyda manylion y sgwrs a'r camau a gymerwyd

**Astudiaeth achos**

Mae staff wedi dweud eu bod wedi clywed Ffion droeon yn gweiddi ac yn rhegi ar ei chariad dros y ffôn. Pan mae'n dod oddi ar y ffôn, mae Ffion yn dweud pethau cas am ei chariad ac yn jocian ei bod hi'n dda i ddim. Nid yw cydweithwyr Ffion yn teimlo'n gyfforddus â'i hymddygiad, ond maent ofn ei herio rhag ofn iddi ymateb yn wael. Mae rheolwr Ffion yn siarad â hi am sut mae pethau gartref a dywed fod rhai pobl wedi'i chlywed yn siarad yn eithaf ymosodgar dros y ffôn. Mae'r rheolwr yn gwrando ar bryderon Ffion ac yn cynnig cymorth priodol iddi. Caiff ei hatgoffa am y polisi trais domestig a'i hannog i weld sut mae ei hymddygiad pan fydd ar y ffôn a'r sylwadau mae'n eu gwneud am ei chariad yn anghyson â'r polisi hwn. Dywed ei rheolwr wrthi na chaiff ymddygiad ymosodgar ei oddef yn y swyddfa ni waeth â phwy mae'n siarad. Mae'r rheolwr yn rhoi gwybod i Ffion am wasanaethau cymorth staff ac mae'n sôn am asiantaethau cymorth a allai ei helpu. Mae'r rheolwr yn cysylltu â'r swyddog trais domestig lleol ac yn codi pryder posibl ynghylch cariad Ffion. Gan nad yw Ffion yn gweithio'n uniongyrchol gyda defnyddwyr gwasanaethau, nid oes unrhyw bryderon diogelu ynghylch y defnyddwyr gwasanaeth. Caiff hyn i gyd ei gofnodi yn ffeil adnoddau dynol Ffion.

**Pwyntiau ymarfer**

- Dylech gynyddu ymwybyddiaeth o gam-drin domestig ar draws eich gwasanaeth drwy hyfforddiant a negeseuon
- Dylai gwybodaeth llinell gymorth i ddioddefwyr a chyflawnwyr gael ei harddangos mewn gweithleoedd
- Dylech ddatblygu polisi trais domestig ar gyfer eich gwasanaeth

- Dylai'r polisi trais domestig gael ei gysylltu â pholisïau eraill y gweithle fel bod cyflawni trais yn gysylltiedig â rheoli perfformiad ac ymddygiad

- Dylid bod yn ofalus wrth drafod unrhyw achos posibl o gyflawni trais gyda staff. Efallai y bydd cyflawnwyr yn teimlo embaras, yn mynd yn ymosodol neu'n amddiffynnol, a dylai diogelwch y staff gael ei ystyried. Gall herio cyflawnwr yn uniongyrchol gynyddu'r risg i'r dioddefwr yn anfwriadol ac felly dylid bod yn ofalus wrth wneud hyn

- Dylid cadw cofnodion o drafodaethau â chyflawnwyr

- Lle codir pryderon am drydydd parti, dylid cysylltu â'r swyddog trais domestig lleol i gael cyngor

- Dylai cyflogwyr fod yn ymwybodol o faterion diogelu posibl os bydd cyflawnwr yn gweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth

- Dylid nodi ffynonellau cymorth a sicrhau eu bod ar gael cyn i bolisïau neu hyfforddiant gael eu cyflwyno er mwyn sicrhau bod modd cefnogi unrhyw un sy'n datgelu eu bod wedi'u cam-drin yn y gorffennol, neu y mae cofio am hynny yn peri trallod iddynt

- Dylai cyflogwyr fod yn ymwybodol y gall fod angen i reolwyr llinell gael cymorth os gwneir datgeliad iddynt

**Pwyntiau strategol**

- Dylai uwch-arweinwyr arwain y gwaith o ddatblygu diwylliant gweithle sy'n hyrwyddo perthynas iach. Dylai'r diwylliant gydnabod y gall unrhyw un gael ei gam-drin, nid dim ond defnyddwyr gwasanaeth

- Dylai asiantaethau sicrhau bod cyflogeion sy'n datgelu yn cael cymorth i chwilio am help a bod y diwylliant lleol yn ei gwneud hi'n hawdd iddynt wneud hynny

## Atodiadau

Atodiad 1: Pwyntiau Ymarfer

### Adran 8: Ystyriaethau Ymarfer

### Pwyntiau ymarfer

- Dylai protocolau rhannu gwybodaeth gael eu datblygu rhwng asiantaethau er mwyn sicrhau bod modd rhannu gwybodaeth yn gyflym ac yn hawdd pan nodir risgiau

- Dylid gweithio gyda chyflawnwyr a dioddefwyr ar wahân lle bynnag y bo modd er mwyn lleihau'r risg i ddioddefwyr ac annog datgeliadau agored

- Dylai asesiadau risg gael eu cynnal ar gyfer unrhyw sefyllfa lle mae angen i ddioddefwyr a chyflawnwyr fod yn bresennol.

- Dylai gwybodaeth am y risg i staff gael ei chofnodi'n glir ar ffeiliau a chael ei rhannu â phob aelod o staff sydd ynghlwm wrth yr achos

- Dylai asesiadau risg gael eu cynnal ar gyfer pob ymweliad â chartref lle mae cam-drin domestig yn peri pryder. Lle tybir bod y risg i staff yn uchel, dylid osgoi gweithio unigol.

- Dylai staff sy'n gweithio gydag achosion o gam-drin domestig gael cymorth. Gall goruchwyliaeth glinigol neu gan gymheiriaid fod yn fforwm defnyddiol i drafod achosion a diogelu rhag cynllwynio neu ymddwyn mewn ffordd ystrywgar. Dylai cymorth allanol fod ar gael lle bo modd i staff y mae'r gwaith hwn yn effeithio arnynt

- Dylai asiantaethau feithrin cysylltiadau â chymunedau a grwpiau lleol sydd ar yr ymylon er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r materion sy'n effeithio arnynt

- Dylai cofnodion clir gael eu cadw gan bob asiantaeth. Lle codir pryderon ynghylch cam-drin domestig dylai hyn gael ei labelu'n glir. Dylai cofnodion gynnwys cofnodion ynghylch penderfyniadau a rhaid gwneud penderfyniadau cyfiawn

**Pwyntiau Strategol**

- Dylai Uwch-arweinwyr sicrhau bod gwaith rhyngasiantaethol a rhannu gwybodaeth yn rhan o gylch gwaith y sefydliad

- Dylai arweinwyr annog diwylliant o rannu gwybodaeth priodol a meithrin dealltwriaeth y gall rhannu gwybodaeth achub bywydau

## Adran 9: Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru fel asiantaethau atgyfeirio

**Pwyntiau ymarfer**

- Dylech nodi pwy yn eich heddlu lleol y gellir cysylltu â nhw os bydd gennych bryderon am risg ddybryd

- Dylai fod gennych brotocolau rhannu gwybodaeth â darparwyr gwasanaeth Cyfiawnder Troseddol lleol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw oedi diangen pan fo angen codi pryderon

- Dylid briffio staff er mwyn eu hysbysu ynghylch pryd a sut i atgyfeirio achos at asiantaethau Cyfiawnder Troseddol lleol

- Dylech weld a oes gennych raglen leol a chadarnhau bod protocolau atgyfeirio wedi'u sefydlu rhwng y rhaglen a'r sefydliad Gwasanaethau Cyhoeddus

- Dylech geisio cyngor gan asiantaethau statudol fel yr heddlu a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi. Efallai y bydd yr unigolyn yn hysbys i

wasanaethau'n barod, yn destun trefniadau monitro a goruchwylio eisoes neu'n gymwys i gael ei atgyfeirio at wasanaethau o'r fath. Efallai y gall gwasanaethau sy'n gweithio gyda'r unigolyn roi arweiniad ar sut i gefnogi eu gwaith yn ogystal â rhoi cyngor ar reoli'r unigolyn o fewn eich cylch gwaith eich hun

- Dylech geisio cyngor gan Respect; cymdeithas yn y DU ar gyfer rhaglenni cyflawnwyr trais domestig a gwasanaethau cysylltiedig i fenywod a all gynnig cyngor arbenigol i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda chyflawnwyr - *respect.uk.net*

- Dylech osgoi mentrau nad ydynt yn seiliedig ar dystiolaeth neu nad ydynt yn ddiogel i ddioddefwyr cam-drin domestig. Dylech geisio cyngor gan eich gwasanaeth arbenigol lleol os nad ydych yn siŵr

**Pwynt strategol**

- Dylech ystyried ac asesu angen lleol mewn perthynas â darparu gwasanaethau i gyflawnwyr. Mae Rhaglenni Cyflawnwyr Trais Domestig yn talu ar eu canfed a gall cynnwys rhaglen o'r fath fel rhan o ddarparu gwasanaethau lleol ddiwallu angen gwasanaeth nas diwallwyd sy'n gost-effeithiol

## Adran 10: Partneriaethau Amlasiantaethol

**Pwyntiau ymarfer**

- Sicrhewch fod eich sefydliad wedi'i gynrychioli'n briodol ym mhob fforwm amlasiantaethol perthnasol. Mae'r fforymau hyn ond yn gweithio pan fydd pob asiantaeth berthnasol wedi'i chynrychioli ac y gall gynnig ffyrdd arloesol a chreadigol (ond sy'n dal i fod yn ddiogel, yn effeithiol ac yn seiliedig ar dystiolaeth) o gynllunio camau gweithredu ar gyfer teuluoedd mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt. Gall fod yn ddefnyddiol cael aelod dynodedig o staff a dirprwy i fynychu'r cyfarfodydd hyn er mwyn sicrhau cysondeb

- Dylai Rhaglenni Cyflawnwyr Trais Domestig lleol a'r rhai sy'n gweithio gyda chyflawnwyr gael eu cynrychioli'n briodol o fewn fforymau amlasiantaethol. Pan na fyddant yn bresennol, mae'r diffyg gwybodaeth gan y cyflawnwr ac amdano, yn aml yn sylweddol; gallai gwybodaeth am y risg gynyddol gael ei methu a gallai cynlluniau diogelu gael eu peryglu

- Bydd unrhyw un sydd wedi cael dedfryd amhenodol yn destun trwydded hir, a all gael ei hail-actifadu os bydd ei ymddygiad yn gwaethygu. Gall codi pryderon gyda'r gwasanaeth cyfiawnder troseddol priodol eu helpu i sicrhau bod ganddynt y dystiolaeth sydd ei hangen i ailgyflwyno gweithdrefnau cymorth a monitro

**Pwynt strategol**

- Dylai arweinwyr sicrhau bod eu gweithlu yn ymwybodol o'r rôl y gall ei chwarae mewn gwasanaethau statudol. Dylai fod neges glir mae'r asiantaeth yn ei chydgysylltu â gwasanaethau statudol a bod gwneud hynny yn achub bywydau

**Adran 11: adnabod, asesu a lliniaru risgiau**

**Pwyntiau ymarfer**

- Dylech fonitro a chasglu'r wybodaeth ganlynol (lle mae ar gael) yn eich ffeiliau achos eich hun a rhannu'r wybodaeth ag asiantaethau perthnasol os yw'n briodol ac yn gyfreithlon:
  - Manylion personol cywir a chyfredol, gan gynnwys unrhyw enwau eraill a ddefnyddir
  - P'un a yw'r unigolyn wedi cam-drin yn y gorffennol
  - Unrhyw bryderon amddiffyn plant
  - Pob perthynas agos ac unrhyw blant mae mewn cysylltiad â nhw
  - Ymddygiad troseddol, marcwyr yr heddlu a gwybodaeth sy'n berthnasol i gam-drin domestig yn cynnwys llosgi bwriadol, bygythiadau i ladd, trais rhywiol, rheolaeth eithafol, neu stelcio

- Unrhyw waith cyflogedig, diddordebau neu weithgareddau sy'n cynnwys gallu corfforol, arfau, neu fynediad i sgiliau ditectif neu TG arbenigol
  - Unrhyw gerbydau, eiddo a systemau TG y gall y cyflawnwr gael gafael arnynt.
  - Camddefnyddio cyffuriau neu alcohol a/neu broblemau salwch meddwl
  - Unrhyw risgiau hysbys i weithwyr proffesiynol fel ymddygiad ymosodgar neu baraffernalia cyffuriau yn y cartref
  - Materion iechyd neu lesiant sy'n effeithio ar ei debygolrwydd o gyflawni trais a cham-drin ymhellach
  - Gwybodaeth berthnasol arall, e.e. anawsterau ariannol, cam-drin anifail anwes, arferion diwylliannol, unrhyw hanes o roi pethau ar dân

- Sicrhau bod staff yn ymwybodol o ddangosyddion risg uwch ar gyfer VAWDASV a sut y gallant roi'r wybodaeth hon i asiantaethau statudol a diogelu

**Pwynt strategol**

- Dylai asiantaethau sicrhau bod ganddynt bolisi i reoli defnyddwyr gwasanaeth sy'n peri risg iddyn nhw eu hunain.

**Adran 12: Ystyriaethau mewnol**

**Pwyntiau ymarfer**

- Dylech gynyddu ymwybyddiaeth o gam-drin domestig ar draws eich gwasanaeth drwy hyfforddiant a negeseuon

- Dylai gwybodaeth llinell gymorth i ddioddefwyr a chyflawnwyr gael ei harddangos mewn gweithleoedd

- Dylech ddatblygu polisi trais domestig ar gyfer eich gwasanaeth

- Dylai'r polisi trais domestig gael ei gysylltu â pholisïau eraill y gweithle fel bod cyflawni trais yn gysylltiedig â rheoli perfformiad ac ymddygiad

- Dylid bod yn ofalus wrth drafod unrhyw achos posibl o gyflawni trais gyda staff. Efallai y bydd cyflawnwyr yn teimlo embaras, yn mynd yn ymosodol neu'n amddiffynnol, a dylai diogelwch y staff gael ei ystyried. Gall herio cyflawnwr yn uniongyrchol gynyddu'r risg i'r dioddefwr yn anfwriadol ac felly dylid bod yn ofalus wrth wneud hyn

- Dylid cadw cofnodion o drafodaethau â chyflawnwyr

- Lle codir pryderon am drydydd parti, dylid cysylltu â'r swyddog trais domestig lleol i gael cyngor

- Dylai cyflogwyr fod yn ymwybodol o faterion diogelu posibl os bydd cyflawnwr yn gweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth

- Dylid nodi ffynonellau cymorth a sicrhau eu bod ar gael cyn i bolisïau neu hyfforddiant gael eu cyflwyno er mwyn sicrhau bod modd cefnogi unrhyw un sy'n datgelu eu bod wedi'u cam-drin yn y gorffennol, neu y mae cofio am hynny yn peri trallod iddynt

- Dylai cyflogwyr fod yn ymwybodol y gall fod angen i reolwyr llinell gael cymorth os gwneir datgeliad iddynt

**Pwynt strategol**

- Dylai uwch-arweinwyr arwain y gwaith o ddatblygu diwylliant gweithle sy'n hyrwyddo perthynas iach. Dylai'r diwylliant gydnabod y gall unrhyw un gael ei gam-drin, nid dim ond defnyddwyr gwasanaeth

- Dylai asiantaethau sicrhau bod cyflogeion sy'n datgelu yn cael cymorth i chwilio am help a bod y diwylliant lleol yn ei gwneud hi'n hawdd iddynt wneud hynny


Atodiad 2: Briffiad cryno

**Briffiad Cryno: Canllawiau arfer da i'r Gwasanaethau Cyhoeddus nad ydynt yn arbenigol yng Nghymru ar weithio gydag oedolion sy'n cyflawni Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol**

*DS: Cynghorir pob gwas cyhoeddus i ddarllen y canllawiau yn eu cyfanrwydd.*

- Mae cam-drin domestig yn gyfrifoldeb i bawb
- Mae'n digwydd yn gyffredin ac yn effeithio ar bobl o bob cefndir
- Gall cyflawnwyr fod yn defnyddio ein gwasanaeth, yn gydweithwyr i ni neu'n ni ein hunain
- Mae'n bwysig ein bod ni i gyd yn meithrin gwell dealltwriaeth o beth yw cam-drin domestig a sut mae dangosyddion risg gynyddol yn edrych. Rhaid i ni hefyd ddeall beth sy'n gwneud perthynas iach
- Dim ond drwy weithio gyda chyflawnwyr y gallwn obeithio dorri'r patrwm o gam-drin ac atal dioddefwyr yn y dyfodol
- Gall y rhesymau pam bod pobl yn cam-drin fod yn gymhleth iawn. Yn aml bydd gan gyflawnwyr hanes o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod sy'n effeithio ar unrhyw berthynas maent ynddi
- Gall cyflawnwyr beri risg iddynt hwy eu hunain yn ogystal ag eraill. Pan fydd cyflawnwyr yn ystyried hunanladdiad neu wedi colli pob gobaith, gall beri risg fawr i ddioddefwyr
- Mae'r Gwasanaethau Cyhoeddus mewn sefyllfa ddelfrydol i adnabod pobl sydd mewn perygl o gam-drin. Gallant wedyn eu cynorthwyo a llywio cynlluniau diogelwch i ddarpar ddioddefwyr
- Dim ond arbenigwyr sydd wedi'u hyfforddi'n addas a ddylai asesu a thrin cyflawnwyr, ond gallwch wneud gwahaniaeth yn eich rôl drwy:
  - Sylwi ar ddangosyddion risg sy'n dod i'r amlwg a chynnig cymorth i bobl
  - Cefnogi cyflawnwyr pan fyddant yn gwneud datgeliadau
  - Cyfeirio cyflawnwyr at wasanaethau addas
  - Rhannu gwybodaeth am y risg bosibl i ddioddefwyr ag asiantaethau statudol
  - Helpu eich staff i ddelio ag ymddygiad heriol cyflawnwyr
  - Herio agweddau neu ddiwylliant amhriodol yn y gweithle
  - Cynyddu eich gwybodaeth am beth yw perthynas iach ac atgyfnerthu hynny yn eich bywyd a'ch cylch cymdeithasol eich hun
- **Diogelwch dioddefwyr ddylai fod yn brif flaenoriaeth i'r Gwasanaethau Cyhoeddus**
- **Mae rhannu gwybodaeth yn achub bywydau**

## Atodiad 3: Siart llif Beth i'w wneud os byddwch yn poeni am risg


Gweithredu mewn ffordd gefnogol nad yw'n barnu neb
Pwy sydd mewn perygl?
Cyflawnwr
3ydd parti
Staff
A yw o ddifrif am niweidio ei hun?
Casglu gwybodaeth os yw'n ddiogel
Adolygu asesiadau risg, yn enwedig os bydd rhywun yn gweithio'n
A yw ynghlwm wrth iechyd meddwl?
Atgyfeiriad brys at wasanaethau iechyd
Sicrhau bod pob aelod o staff perthnasol yn yr asiantaeth yn
√
X
Rhannu gwybodaeth
Cysylltu am gyngor
Rhannu pryderon ag asiantaethau eraill sy'n gweithio gyda'r cyflawnwr
A yw'r cyflawnwr ynghlwm wrth wasanaethau
√
X
Rhannu gwybodaeth
Hysbysu'r swyddog trais domestig lleol am
Cofnodi pob cyswllt a phenderfyniad mewn ffeiliau asiantaeth
Ceisio cymorth rheoli llinell drwyddi draw

Atodiad 4: Diffiniadau

**Cam-drin (fel y'i diffinnir gan y Ddeddf):** Cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol

**Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod**: Digwyddiadau trawmatig y gall plant eu profi wrth dyfu i fyny, sy'n parhau i effeithio arnynt fel oedolion. Gall y rhain gynnwys esgeulustod a cham-drin corfforol, geiriol a rhywiol, yn ogystal â ffactorau yn y cartref, fel bod yn dyst i drais domestig, teulu'n chwalu, a byw mewn cartref a gaiff ei effeithio gan gamddefnyddio sylweddau, salwch meddwl neu ymddygiad troseddol. Gall profiadau o'r fath effeithio ar ddatblygiad niwrolegol sy'n peri anawsterau o ran rheolaeth emosiynol. Mae plant sy'n cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn fwy tebygol o ymddwyn mewn ffyrdd gwrthgymdeithasol ac sy'n niweidiol i iechyd fel oedolyn, gyda nifer cynyddol o'r profiadau hyn yn arwain at ymddygiadau fwyfwy niweidiol[47]

**Creu Cydberthnasau Gwell (BBR):** Rhaglen i ddynion sy'n cyflawni trais ac yn cam-drin mewn perthynas agos (heterorywiol). Caiff BBR ei rhedeg mewn carchardai a safleoedd cyflenwi cymunedol a'r nod yw meithrin dealltwriaeth o ffactorau sy'n ysgogi trais domestig, lleihau ffactorau risg unigol a meithrin sgiliau cymdeithasol da

**Cleient:** person sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae hyn yn cwmpasu'r termau "dioddefwr", "goroeswr", "defnyddiwr gwasanaeth" a "claf". Mae gwahanol bartneriaid yn defnyddio gwahanol eiriau i ddiffinio eu perthynas â'r person sy'n wynebu risg ac, felly, mae'r canllawiau yn adlewyrchu hyn

Yn ymarferol, mae'r rhai sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn dewis y term a ffefrir ganddynt, lle mae angen term. Yn gyffredinol, dylai fod yn bosibl defnyddio enw cleient yn hytrach na thermau disgrifiadol eraill

[47] Iechyd Cyhoeddus Cymru http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/88518

**Rheolaeth drwy Orfodaeth:** fel y'i diffinnir gan Ddeddf Troseddau Difrifol 2015 mae'n batrwm pwrpasol o ymddygiad sy'n digwydd dros amser er mwyn i un unigolyn gael pŵer neu reolaeth dros rywun arall, neu allu ei orfodi[48]

**Cydweithio:** ymateb rhyngasiantaethol cydgysylltiedig drwy strwythur ffurfiol, neu fforwm, lle mae'r prif ffocws ar ddiogelu'r dioddefwr, lleihau erledigaeth eilaidd a dwyn camdrinwyr i gyfrif. Dylai'r fforwm:

(a) mabwysiadu cyd-bolisïau a chyd-weithdrefnau cyson, gan gynnwys asesiad risg a chynllun rheoli risg a diogelwch cytûn, sy'n cydgysylltu ac yn safoni'r ymyriadau proffesiynol ar gyfer pawb sy'n wynebu risg ac yn lleihau'r risg o niwed;
(b) rhannu gwybodaeth i wella diogelwch, iechyd a llesiant dioddefwyr/goroeswyr sy'n oedolion a'u plant;
(c) gweithio i leihau erledigaeth ailadroddus;
(d) gwella atebolrwydd asiantaethau;
(e) gwella'r cymorth, gan gynnwys hyfforddiant, a roddir i'r holl staff sy'n rhan o achosion cam-drin domestig;
(f) penderfynu a yw'r camdriniwr honedig yn peri risg sylweddol i unrhyw unigolyn penodol neu i'r gymuned yn gyffredinol.

**Cam-drin domestig:** Cam-drin lle mae neu lle bu cysylltiad rhwng y dioddefwr a'r camdriniwr

Mae person yn gysylltiedig â pherson arall at ddiben y diffiniad o “gam-drin domestig” os yw’n dod o dan y diffiniad yn adran 24 o Ddeddf VAWDASV (Cymru) 2015

**Rhaglenni Cyflawnwyr Trais Domestig:** gwaith grŵp cymunedol sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda chyflawnwyr gyda'r nod o newid eu hymddygiad ac atal mwy o gam-drin a thrais

---

48 Y Swyddfa Gartref (2016) *Controlling or Coercive Behaviour in an Intimate or Family Relationship Statutory Guidance Framework.* Y Swyddfa Gartref

**Trais ar sail Rhywedd:** fel y'i diffinnir gan Ddeddf VAWDASV (Cymru) 2015: (a) trais, bygythiadau o drais neu aflonyddu sy’n codi yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol o werthoedd, credoau neu arferion sy’n ymwneud â rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol; (b) anffurfio organau cenhedlu benywod; (c) gorfodi person (p’un ai drwy rym corfforol neu orfodaeth drwy fygythiadau neu ddulliau seicolegol eraill) i gymryd rhan mewn seremoni briodas grefyddol neu sifil (p’un ai a yw'n ei rwymo’n gyfreithiol ai peidio)

**Aflonyddu:** fel y'i diffinnir gan Ddeddf VAWDASV (Cymru) 2015: Math o ymddygiad gan berson lle mae’n gwybod neu lle dylai wybod ei fod yn gyfystyr ag aflonyddu'r person arall; ac at ddiben y diffiniad hwn:

(a) dylai person wybod bod ei ymddygiad yn gyfystyr ag aflonyddu neu'n golygu hynny os byddai person rhesymol oedd yn meddu ar yr un wybodaeth yn meddwl bod y math o ymddygiad yn gyfystyr ag aflonyddu person arall neu'n golygu hynny;
(b) mae “ymddygiad” yn cynnwys iaith lafar

**Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi:** Mae'n rheoli'r risg a berir gan gyflawnwyr VAWDASV yn ogystal â darparu ymyriadau yn y ddalfa ac mewn lleoliadau cymunedol

**Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA):** Gweithiwr arbenigol wedi’i hyfforddi sy’n darparu cymorth gwaith achos tymor byr i ganolig i ddioddefwyr sy'n wynebu risg uchel o gam-drin domestig.

**Awdurdod Lleol:** Cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol

**MARAC:** Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg

**MASH:** Canolfan Ddiogelu Amlasiantaethol

**MAPPA:** Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd

**Strategaeth Ffyniant i Bawb:** Strategaeth Llywodraeth Cymru i ddatblygu ei rhaglen Lywodraethu sy'n anelu at sicrhau ffyniant i bawb drwy ganolbwyntio ar y themâu canlynol: ffyniannus a diogel; iach ac egnïol; uchelgeisiol ac yn dysgu ac unedig a chysylltiedig

**Cyflawnwr**: naill ai unigolion a gafwyd yn euog neu nas cafwyd yn euog sy'n defnyddio trais ac yn cam-drin eu partneriaid, eu cynbartneriaid neu aelodau o'r teulu

**Prif Gyflawnwr:** y person sydd â'r berthynas â'r dioddefwr

**Cyflawnwyr dirprwyol:** trydydd partïon sy'n ymddwyn mewn ffordd gamdriniol tuag at y dioddefwr ar ran y prif gyflawnwr

**Gwasanaethau Cyhoeddus:** gwasanaethau a ddarperir gan y llywodraeth neu gorff swyddogol er budd y cyhoedd. Gall hyn gynnwys gwasanaethau a ddarperir drwy'r trydydd sector, drwy fenter gymdeithasol neu drwy wasanaethau a osodir ar gontract

**Awdurdodau perthnasol**: cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol, Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Tân ac Achub ac ymddiriedolaethau'r GIG

**Dioddefwyr eilaidd:** unigolion a gaiff eu niweidio oherwydd y berthynas gamdriniol, er enghraifft, plant, aelodau o'r teulu, pobl sy'n gwylio, partneriaid newydd

**Camfanteisio rhywiol (fel y'i diffinnir gan y Ddeddf):** rhywbeth a wneir i berson neu mewn perthynas â pherson

(a) sy'n golygu cyflawni trosedd o dan Ran 1 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 (c. 42), o ran ei heffaith yng Nghymru a Lloegr, neu
(b) a fyddai'n golygu cyflawni trosedd o’r fath pe bai’n cael ei wneud yng Nghymru a Lloegr;

**Trais Rhywiol (fel y'i diffinnir gan y Ddeddf):** cam-fanteisio rhywiol, aflonyddu rhywiol neu fygwth trais o natur rywiol

**Y Ddeddf:** Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

**Dioddefwr:** unigolyn sy'n cael ei gam-drin gan unigolyn arall

**Trais yn erbyn menywod:** Y profiad o drais ar sail rhywedd (fel y'i diffinnir yn y Ddeddf) gan fenywod

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:** Nod y Ddeddf yw gwella llesiant cymdeithasol, addysgol, diwylliannol ac economaidd Cymru. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus roi mwy o ystyriaeth i'r hirdymor, cydweithio'n fwy unedig a gweithio'n effeithiol gy  da'r cyhoedd

**Y sector cyhoeddus yng Nghymru:** Diffinnir pob awdurdod perthnasol yn ôl adran 14 o'r Ddeddf